‘DYFRFFYRDD I GYMRU’
YMGYNGHORIAD
2003

CYNODEB O YMATEBION

British Waterways
Dyfrffyrdd Prydain

RHAGAIR

Roedd ymgynghoriad 'Dyfrffyrdd i Gymru' yn 2003 yn gam arwyddocaol ymlaen i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleodd a'r manteision y mae dyfrffyrdd Cymru yn eu cynnig ar gyfer gwell ansawdd bywyd, mantais amgylcheddol a datblygu economaidd. Roedd hefyd yn fodd o ddod â phartneriaid o holl feysydd a sectorau eraill Cymru ynghyd i ystyried y dyfodol mewn ffordd sydd iddi fwy o ffocws. Mae'r ymatebion i'r ymgy nghoriad yn bositif ac yn galonogol.

Er nad yw'r cyfrifoldeb am ddyfrffyrdd wedi'i ddatganoli'n ffurfiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru mae ein dyfrffyrdd yn ased pwysig i ni yng Nghymru, gydag arwyddocâd i lawer agwedd ar gylch gwaith y Cynulliad ac i amrywiaeth eang o gyrff yng Nghymru sy'n gysylltiedig neu sydd â diddordeb mewn gofalu amdanynt a'u datblygu. Mae partneriaethau effeithiol eisoes yn darparu prosiectau adnewyddu a gofal amgylcheddol yng Nghymru sydd hefyd yn meithrin gweithgarwch economaidd newydd.

Hoffai Llywodraeth Cynulliad Cymru weld cynnydd parhaus o ganlyniad i gydweithio ac edrychaf ymlaen at weld Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud ei rhan i ddarparu cynlluniau Dyfrffyrdd Prydain a'i bartneriaid ar gyfer eu datblygiadau yn y dyfodol yng Nghymru.

Rydw i'n cefnogi'r fenter hon a fydd yn dod â manteision sylweddol i Gymru.

Andrew Davies AC, Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

---

Mae Dyfrffyrdd Prydain yn un o nifer o sefydliadau sydd â chyfrifoldebau dros ddyfrffyrdd yng Nghymru. Roeddem felly yn hynod falch pan anogodd y Cyn-Weinidog dros yr Amgylchedd Sue Essex AC, ni i gymryd camau i ddatblygu syniadau am gynllun eang a fyddai o gymorth i wireddu potensial llawn dyfrfannau i wella ansawdd bywyd yng Nghymru.

Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad a ddeilliodd o hynny, 'Dyfrffyrdd i Gymru', y tu hwnt i'n disgwyliadau ac yn nodi llwybr clir ar gyfer cydweithio i bawb sy'n rhannu cyfrifoldebau dros ddyfrffyrdd amrywiol a hollbwysig Cymru. Mae Andrew Davies AC, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, yn amlwg yn rhannu brwdfrydedd ei ragflaenydd am y gwir fanteision a all ddod i Gymru yn sgil gwell dyfrffyrdd a chroesewir ei benderfyniad i gynnal gweithgor, gan ddatblygu canfyddiadau'r broses ymgynghori. Mae Dyfrffyrdd Prydain bellach yn cydweithio gyda'r Cynulliad i sefydlu'r gweithgor.

Rydym yn ddiolchgar am arweiniad y llu o sefydliadau ac unigolion a ymatebodd i ymgynghoriad Dyfrffyrdd i Gymru. Bellach rydyn ni'n edrych ymlaen at gydweithio â hwy, y Cynulliad, ei asiantaethau a'n partneriaid, er mwyn cynhyrchu cynllun sy'n cydweddu gyda pholisïau a strategaethau Cymru, i sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol

arwyddocaol.

Robin Evans, Prif Weithredwr, Dyfrffyrdd Prydain

CYFLWYNIAD:

Yn 2003, cyhoeddodd Dyfrffyrdd Prydain ddogfen ymgynghori 'Dyfrffyrdd i Brydain' ac yna cynhaliodd ymarfer ymgynghori cynhwysfawr. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw bellach yn cael eu cyflwyno fel sail ar gyfer cynnydd pellach.

Mae sail yr ymgynghoriad, 'Dyfrffyrdd i Gymru', yn amlinellu gweledigaeth bartneriaeth uchelgeisiol sydd â'r nod o gynnwys dyfrfannau Cymru yn y gwaith parhaus o adfywio economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol y genedl.

Agwedd annatod ar y weledigaeth hon yw trafodaeth sy'n cynnwys partneriaid yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a masnachol, partïon cefnogol eraill a chymunedau ehangach Cymru.

Roedd yr ymgynghoriad yn ymdrin â materion allweddol sy'n sail i egwyddorion Dyfrffyrdd i Gymru:

- Ysgogi adfywiad economaidd;
- Gweithredu fel catalydd ar gyfer adfer cefn gwlad;
- Datblygu ffordd o fyw gynaliadwy;
- Hyrwyddo bywiogrwydd treftadaeth ddiwylliannol Cymru;
- Hyrwyddo Cymru yn y byd ehangach.

Roedd y ddogfen 'Dyfrffyrdd i Gymru' o gymorth i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd a'r manteision y mae dyfrffyrdd Cymru yn eu cynnig. Roedd yn manteisio ar brofiad helaeth Dyfrffyrdd Prydain ym meysydd adfywio dyfrffyrdd, datblygu cynaliadwy a chadwraeth.

Nod y prosiectau sy'n cael eu rhoi fel enghreifftiau yn Dyfrffyrdd i Gymru yw adfywio trwy adfer ac adnewyddu. Gweithio mewn partneriaeth sy'n sail iddynt i gyd a bydd angen portffolio cyllid i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni. Nod y prif brosiectau cyfalaf yn enwedig yw trawsnewid coridorau dyfrffyrdd mewndirol Cymru yn effeithiol. Fel mentrau strategol gallant ddarparu más critigol a gwneud y gorau o 'effeithiau lluosogi' cynlluniau unigol lleol a rhanbarthol. Cafwyd cefnogaeth eang yn yr ymatebion i'r prosiectau yn y ddogfen ymgynghori ond roedd yna alw hefyd am syniadau ar gyfer prosiectau amgen ac arloesol mewn dyfrffyrdd a dyfrfannau eraill i ehangu'r ardal a'r cwmpas daearyddol ar gyfer datblygiad yn y dyfodol.

Ers dechrau'r ymgynghori, arweiniodd y gwaith o ad-drefnu Dyfrffyrdd Prydain yn y DU at greu uned reoli newydd, Dyfrffyrdd Prydain Cymru a'r Gororau. Mae hyn yn cynyddu potensial Dyfrffyrdd Prydain i gyflawni gwaith strategol gyda phartneriaid newydd yng Nghymru ac ar gyfer cydgysylltu â pholisïau a rhaglenni Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Dyfrffyrdd Prydain Cymru a'r Gororau yn gallu cynnig ei arbenigedd i godi a rhannu cyllid, rheoli prosiectau ac asedau, gofalu am yr amgylchedd a chadwraeth, peirianneg a chynllunio – a chyflwyno'r rhain fel adnoddau newydd i brosiectau dyfrffyrdd gyda phartneriaid yng Nghymru.

Comment [ME1]: DOES THIS WORK?

Yng ngoleuni'r ymatebion positif a chalonogol a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad, y gobaith yw y bydd yr adroddiad hwn yn cynnal y diddordeb hwnnw ac yn gweithredu fel catalydd i ddod â phartneriaid ynghyd i ystyried y camau nesaf a'r cynigion a wnaed yn yr ymatebion.

Mae holl bartneriaid 'Dyfrffyrdd i Gymru', trwy gydweithio, wedi cymryd y camau cyntaf i sefydlu dull effeithiol 'gwnaed yng Nghymru' i gynnal a datblygu dyfrffyrdd Cymru a fydd yn ennyn hyder a chefnogaeth y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol.

Trwy gydweithio i gynllunio a datblygu ein dyfrffyrdd yn gynaliadwy, byddwn yn cyflawni llawer mwy a hynny er lles pobl Cymru.

Julie Sharman, Rheolwraig Gyffredinol Cymru a'r Gororau

Cynnwys:

		Rhif y dudalen:
RHAGAIR	**2**	
CYFLWYNIAD:		**4**
Cynnwys:		**6**
1.	**Cefndir:**	**7**
2.	**Amserlen:**	**8**
3.	**Cyhoeddi:**	**8**
4.	**Hyrwyddo:**	**8**
5.	**Holiadur Byr**	**8**
6.	**Ymatebion Ysgrifenedig – wedi'u meintioli**	**8**
7.	**Ymatebion Ysgrifenedig – fesul categori**	**8**
8.	**Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad:**	**10**
9.	**Cyrff Cyhoeddus Eraill:**	**9**
10.	**Llywodraeth Leol:**	**11**
11.	**Cyrff sydd â diddordeb masnachol:**	**13**
12.	**Cyrff Proffesiynol:**	**14**
13.	**Pleidiau Gwleidyddol, Aelodau etholedig**	**14**
14.	**Y Sector Gwirfoddol – Dyfrffyrdd**	**16**
15.	**Y Sector Gwirfoddol – Diddordeb Arbennig**	**18**
16.	**Ymatebion Unigol:**	Error! Bookmark not defined.
17.	**Casgliadau**	Error! Bookmark not defined.
ATODIAD A: Rhestr o Ymatebwyr yn ôl Categori		**22**
ATODIAD B: Rhestr o Ymatebwyr yn Nhrefn y Wyddor		Error! Bookmark not defined.
ATODIAD C:– Ymateb i'r Holiadur Byr		**24**
ATODIAD D: Rhestr o Fyrfoddau		**32**

1. Cefndir:

Lle bynnag y maent yn llifo, mae camlesi mordwyol yn gatalyddion ar gyfer esblygiad economaidd Cymru. Maent yn rhan annatod o lwyddiant Cymru yn y gorffennol a'r dyfodol ac maent wrth galon treftadaeth ddiwylliannol Cymru. Yn ogystal, mae gan Gymru asedau arwyddocaol sy'n cael eu cynrychioli gan nifer helaeth o ddyfrffyrdd mewndirol, porthladdoedd, harbwrs a marinas a llynnoedd naturiol ac o waith dyn. Mae ein dyfrffyrdd a'n dyfrfannau …yn hafan i fywyd gwyllt, nodweddion tirlun pwysig, etifeddiaeth o'r chwyldro diwydiannol ac asedau twristiaeth cenedlaethol sylweddol. Maent yn berthnasol i'r oes fodern fel adnodd i gymunedau lleol ar gyfer hamdden, addysg ac iechyd. 'Dyfrffyrdd i Gymru' 2003

Cynhyrchwyd Dyfrffyrdd i Gymru (DIG) gan Ddyfrffyrdd Prydain (DP) yn y gwanwyn 2003, ar awgrym Sue Essex AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y pryd.

Nid strategaeth ddrafft oedd y ddogfen ei hun ond un a oedd yn amlinellu sut y gellid defnyddio dull strategol, gan ddefnyddio, fel astudiaethau achos, grynodebau o brosiectau dyfrffyrdd mewndirol yr oedd Dyfrffyrdd Prydain yn eu deall yn fanwl. Fodd bynnag, roedd y diffiniadau agoriadol o ddyfrffyrdd yn cynnwys dyfrffyrdd naturiol a'r gwahoddiad i gyflwyno prosiectau dyfrffyrdd naturiol yn ogystal â rhai o waith dyn yn ddilys. Roedd croeso i bawb ymateb beth bynnag eu diddordeb.

Cydnabuwyd o'r dechrau bod gofalu am ddyfrffyrdd a dyfrfannau yn rhan o gylch gwaith sawl asiantaeth yng Nghymru. Mae eu defnydd yn ogystal â'u potensial ar gyfer datblygu yn effeithio ar ddiddordebau gwahanol gymunedau. Rhaid i ddatblygiad fod yn sensitif i'w hanghenion ac i'r amgylchedd. Dim ond os bydd pawb sydd â rhan i'w chwarae yn cydweithio i gyflawni gweledigaeth gyffredin y gellir manteisio ar botensial y dyfrffyrdd er lles pawb.

Gan ystyried y safbwynt hwn, dosbarthwyd y ddogfen mor eang â phosib yng Nghymru, a chefnogwyd y gwahoddiad i ymateb gyda chyhoeddusrwydd gydol y cyfnod ymgynghori estynedig (gweler isod). Gan nad oedd yr adroddiad wedi'i gyhoeddi dan nawdd y Cynulliad, nid oedd yn rhaid i unrhyw gorff ymateb ac ni ddefnyddiwyd sianeli dosbarthu'r Cynulliad a chyrff cyhoeddus.

Nod *Dyfrffyrdd i Gymru* oedd gwahodd barn ar y dull strategol hwn ac, yn enwedig, ar y cwestiynau ymgynghori yn Adran 6. Ni wnaeth yr holl ymatebwyr roi sylw i'r materion hyn ac ystyriodd rhai'r ddogfen fel cynllun drafft gan wneud sylwadau ar gynigion a meysydd arbennig sydd, er yn werthfawr a diddorol, heb eu cynnwys yn y trosolwg hwn.

Dylai unrhyw gyfeiriadau cyffredinol at ddyfrffyrdd yn y Crynodeb o Ymatebion, oni nodir yn wahanol neu a wneir yng nghyd-destun trafod ddyfrffyrdd mewndirol, gael eu hystyried fel rhai sy'n gallu cynnwys afonydd, llynnoedd, dyfroedd arfordirol ac unrhyw ddyfrfannau eraill a ddefnyddir ar gyfer mordwyo a hamdden.

Nid yw'r trosolwg canlynol yn cynnwys yr ymatebion i gyd, ond mae'n rhoi crynodeb ac yn amlygu'r pwyntiau mwyaf arwyddocaol a wnaed. Mae'r atebion yn gytun i raddau helaeth beth bynnag yw eu categori a pha mor gryf bynnag neu beidio yw eu diddordeb mewn dyfrffyrdd.

2. Amserlen:

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad i'r cyfryngau a phartneriaid lleol ym masn Pont-y-moel ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu ar 7 Mawrth gan Robin Evans, Prif Weithredwr Dyfrffyrdd Prydain, a gyflwynodd y ddogfen ymgynghori 'Dyfrffyrdd i Gymru' i Sue Essex AC. Cafwyd lansiad i ystod ehangach o bartneriaid mewn cyfarfod o'r Grwp Pob Plaid ar Ddyfrffyrdd ar 25 Mawrth yn y Cynulliad Cenedlaethol. Ar ôl ad-drefnu Dyfrffyrdd Prydain, penderfynwyd ymestyn yr amserlen i ganiatáu amser ar gyfer cyfarfodydd ymgynghori rhwng y Rheolwr Cyffredinol newydd a phartneriaid allweddol.

3. Cyhoeddi:

Wedi'r lansio dosbarthwyd y ddogfen ymgynghori yn uniongyrchol trwy'r post, ynghyd â llythyr gan Ddyfrffyrdd Prydain a chopi ar wahân o'r cwestiynau allweddol a godwyd yn adran chwech y ddogfen. Yn ystod y misoedd dilynol, dosbarthwyd copïau pellach o'r adroddiad mewn cyfarfodydd gyda swyddogion, gwleidyddion a phartneriaid DP. Anfonwyd tua 1000 o gopïau yn uniongyrchol trwy'r post a dosbarthwyd sawl cant arall o gopïau mewn ymateb i ymholiadau, mewn digwyddiadau cyhoeddus a thrwy gyswllt personol, gan gynnwys yr holl Awdurdodau Lleol (ALl), Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASPB) a chyrff cyhoeddus eraill, sector gwirfoddol y dyfrffyrdd a'r sector gwirfoddol ehangach yng Nghymru; arbenigwyr ymchwil a chyrff ymbarél a chynrychiadol, aelodau'r Grwp Pob Plaid ar Ddyfrffyrdd, Aelodau'r Cynulliad ac AS o Gymru, gweision sifil ac academyddion. Sicrhawyd bod yr ymgynghoriad ar gael i'w ddadlwytho o dudalennau dwyieithog gwefan Ddyfrffyrdd Prydain.

4. Hyrwyddo:

Yn ogystal â'r gweithgaredd cyfryngau cychwynnol, a gafodd ychydig sylw'n unig, rhoddwyd hysbysebion ym mhrif bapurau Cymru, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Hefyd, cynhyrchwyd holiadur dwyieithog byr i'w ddosbarthu mewn digwyddiadau cyhoeddus megis yr Eisteddfod Genedlaethol a denodd hyn geisiadau ychwanegol am y ddogfen ymgynghori.

5. Holiadur Byr

Cafodd 782 o holiaduron byr eu cwblhau gan y cyhoedd.

Mae'r dadansoddiad yn dangos bod cyfraniad ddyfrffyrdd i hamdden yn cael ei ystyried fel y fantais fwyaf oll, mai adfer dyfrffyrdd ddylai'r prif amcan fod ar gyfer y dyfodol, a bod yna gefnogaeth gref i sefydlu gweithgor i gydgysylltu datblygiad dyfrffyrdd yng Nghymru.

Bernid mai Hamdden oedd prif werth strategol dyfrffyrdd, gyda 71% o ymatebwyr yn ei raddio fel 1 neu 2 (1 = pwysicaf – 5 lleiaf pwysig) a 52% yn graddio swyddi fel 1 neu 2, tra bo 44% yn graddio mynediad yn yr un modd. Roedd adfer yn cael ei ystyried fel yr amcan pwysicaf i ymatebwyr (70% yn ei ystyried yn bwysig iawn), yn erbyn gwella mynediad neu well cyhoeddusrwydd neu wybodaeth. O'r 58% a ymatebodd i'r cwestiwn, dywedodd 91% y dylid cael gweithgor yn cynnwys cyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i gydgysylltu'r math hwn o waith yng Nghymru

6. Ymatebion Ysgrifenedig – wedi'u meint ioli

Derbyniwyd 45 ymateb arwyddocaol i'r Ymgynghoriad; gan 3 ASPB, 4 corff cyhoeddus arall, 7 Awdurdod Lleol a 2 Gyngor Tref, 6 sefydliad dyfrffyrdd sector gwirfoddol; 9 grwp diddordeb arbennig sector gwirfoddol; 2 gorff Proffesiynol, 2 gorff masnachol; 2 ymateb dan Blaid Wleidyddol, 8 ymateb gan unigolion.

7. Ymatebion Ysgrifenedig – yn ôl categori

Mae'r ymatebion a dderbyniwyd yn rhoi persbectif cytbwys gan bob math o gyrff, gyda'r rhan fwyaf ohonynt â rhywfaint o ddiddordeb cynhenid mewn dyfrffyrdd a dyfrfannau. Dylai hyn gael ei ystyried yn ymateb da i ymgynghoriad anstatudol yng Nghymru.

Mae'r ymatebion wedi'u categoreiddio i wneud y gwaith o ddadansoddi'n haws ond efallai na fydd hyn bob amser yn cydnabod yn ddigonol gylch gwaith llawn yr ymatebydd. Mae rhai ymatebion a ddaeth o gategorïau hynod wahanol yn gwneud pwynt tebyg iawn ar faterion penodol – wrth gyfeirio at yr un dyfrffyrdd fel arfer. Ni fydd yr awgrymiadau manwl a roddwyd mewn rhai ymatebion yn cael sylw yn y trosolwg hwn. Rydym wedi ceisio adrodd ar holl brif bwyntiau pob ymateb yn ôl themâu yr ymgynghoriad ond oherwydd prinder lle, ni fu'n bosib gwneud hynny air am air. Gellir cael gwybodaeth ychwanegol am ymatebion unigol trwy anfon e-bost at **marc.evans@britishwaterways.co.uk**

8. Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad:

Derbyniwyd ymatebion gan: Cyngor Cefn Gwlad Cymru, (CCGC) Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AA), Bwrdd Croeso Cymru (BCC).

8.1.1. Ymateb i'r DIG:

8.1.2. Roedd ASPB yn croesawu Adroddiad DIG, gydag AA yn ychwanegu y dylid ymestyn cwmpas y strategaeth a oedd ar y gorwel i gydnabod swyddogaeth AA a chynnwys ei ddyfrffyrdd ei hun ac eraill yn y broses ddrafftio.

8.1.3. Mae BCC yn gweld synergedd sylweddol rhwng prosiectau enghreifftiol DIG a'i weithgareddau ei hun a meysydd gweithredu blaenoriaethol, gan gynnwys portffolio o strategaethau gweithgareddau twristiaeth (seiclo, cerdded, pysgota a marchogaeth a'r strategaeth Chwaraeon Dwr newydd) a HERIAN, y fenter adfywio treftadaeth ddiwydiannol y mae'n ei chefnogi.

8.1.4. Mae CCGC yn croesawu yn arbennig y potensial ar gyfer manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gyda phwyslais arbennig ar y potensial i sicrhau datblygu cynaliadwy trwy roi'r amgylchedd wrth galon yr holl brosiectau. Mae CCGC yn cydnabod, heb fuddsoddi a defnyddio dyfrffyrdd mewndirol, ni ellir diogelu na gwella dyfodol hirdymor camlesi yn enwedig fel cynefinoedd a mannau amwynder pwysig.

8.1.5. Mae AA yn cefnogi llawer o nodau a dyheadau DIG a hwy yw rheolwyr y dyfrffyrdd (Gwy, Llugwy a Dyfrdwy) yn ogystal â'r Ganolfan Dwr Gwyn Genedlaethol yn Nhryweryn; yn ogystal mae ganddo swyddogaethau rheoliadol perthnasol pwysig.

8.1.6. Mae'r holl gyrff yn croesawu'r cyfraniad posib y strategaeth ddyfrffyrdd at ddatblygu cynaliadwy a'r buddion sylweddol ar gyfer ansawdd bywyd, ac mae AA a CCGC yn arbennig yn nodi'r manteision corfforol a meddyliol y gallai eu sicrhau i lawer trwy fesurau rhad i wella mynediad i ddyfrffyrdd a gwella cyfleusterau i ddefnyddwyr.

8.2. Cwmpas:

8.2.1. Mae BCC a CCGC yn awgrymu y dylid cynnwys dyfrffyrdd AA (e.e. Gwy, a gefnogwyd gan AA q.v. 8.1.1), a dyfrfannau eraill (afonydd, llynnoedd, cronfeydd dwr a marinas) yng nghwmpas y strategaeth yn y pen draw.

8.2.2. Nododd AA bod potensial adfywio perthnasol ar safleoedd tir llwyd yng nghyffiniau dociau a bod potensial ar gyfer hamdden ar lynnoedd o waith dyn a rhai naturiol ac y dylid cynnwys gweithgareddau cysylltiedig megis pysgota a cherdded yn y cynlluniau strategol.

8.2.3. Mae AA yn ymuno gyda BCC i bwysleisio'r potensial ar gyfer canwio, y bydd BCC yn rhoi sylw iddo ynei strategaeth Chwaraeon Dwr.

8.2.4. Mae AA yn nodi bod rhai dyfrffyrdd mewndirol, yn ogystal ag afonydd y mae'n eu rheoli, yn bwysig ar gyfer tynnu dwr ar gyfer diwydiant a thai (a bod rhai dyfrffyrdd mewndirol angen dwr o ffynonellau sensitif).

8.3. Blaenoriaethau:

8.3.1. Hoffai AA weld amcanion mwy mesuradwy ac mae'n nodi y dylid cydnabod a gwerthfawrogi partneriaeth yn y gymuned a chyfraniad y sector gwirfoddol.

8.3.2. Mae CCGC yn ystyried datblygu cynaliadwy – datblygu economaidd gyda gofal am yr amgylchedd yn sail iddo a chreu bywiogrwydd diwylliannol fel yr agwedd fwyaf arwyddocaol.

8.3.3. Mae CCGC yn nodi, er ei bod yn ddefnyddiol dangos bod polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru (WAG) ac ASPB yn dod ynghyd trwy brosiectau dyfrffyrdd cadarn, byddai'n ddefnyddiol hefyd i nodi lle y gellir cael gwrthdaro posib, h.y. datblygiad yn erbyn diogelu bioamrywiaeth, cystadleuaeth am adnoddau dwr ac ati

8.4. Amserlen:

8.4.1. Yn amodol ar gyllid ac ystyriaethau lleol ac amgylcheddol (CCGC); rhaglen 10 mlynedd i gwblhau prosiectau blaenoriaeth sy'n her ond realistig (BCC).

8.5. Materion Eraill:

8.5.1. Mae AA, BCC a CCGC yn gweld y cyfle ar gyfer adeiladu ar y cydweithrediad sy'n datblygu o amgylch prosiectau dyfrffyrdd i weithredu ar y cyd gyda'r potensial am brosiectau wedi'u cyd-ariannu.

8.5.2. Mae CCGC ac AA am weld mwy o bwyslais ar fioamrywiaeth ac mae AA hefyd yn nodi y dylid cymryd gofal i ystyried y goblygiadau o ran amddiffyn a rheoli rhag llifogydd ac adnoddau dwr.

8.5.3. Mae AA yn pwysleisio bod partneriaethau yn y gymuned a manteision amgylcheddol yn agweddau pwysig ar ddatblygu cynaliadwy a bod angen amlygu'r rhain yn yr holl brosiectau.

8.5.4. Mae CCGC yn nodi y gall prosiectau bach a chanolig fod yn werthfawr.

8.5.5. Mae BCC yn nodi nifer o strategaethau a mentrau, gan gynnwys Strategaeth Chwaraeon Dwr a HERIAN, y gyd-fenter adfywio treftadaeth ddiwydiannol, sy'n cynnig synergedd gyda datblygu dyfrffyrdd.

8.5.6. Mae CCGC a BCC â diddordeb yn y posibilrwydd o gydweithio i hyrwyddo twristiaeth chwaraeon dwr ac ymrwymodd AA yn ddiweddar i weithio'n glos gyda Dyfrffyrdd Prydain yng Nghymru.

8.5.7. Mae CCGC yn nodi ei fod yn gweithio'n agos gyda phartneriaid ar adfer Camlas Mynwy ac yn gwneud sylwadau manwl ar waith adfer arall cyfredol neu arfaethedig.

8.6. Y Ffordd Ymlaen:

8.6.1. Mae BCC yn cefnogi'r gwaith o sefydlu gweithgor cenedlaethol gyda grwpiau partneriaid lleol/rhanbarthol yn cynnwys rhanddeiliaid pwysig. Gallai'r grwp cenedlaethol ddarparu blaenoriaethau ar gyfer datblygu rhwng y themâu a'r prosiectau tra'n galluogi grwpiau rhanddeiliaid lleol/rhanbarthol i gyd-gysylltu camau gweithredu ar lefel prosiect. Mae BCC yn cynnig y dylai'r grwp cenedlaethol adrodd bob blwyddyn o leiaf i Bwyllgorau Amgylchedd a Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth y Cynulliad. Mae CCGC yn cefnogi'r manteision posib o greu grwp strategaeth o'r fath. Mae AA am gyfrannu er mwyn parhau â'r gwaith o ddatblygu strategaeth ar gyfer dyfrffyrdd mewndirol yng Nghymru.

Formatted: Bullets and Numbering

9. Cyrff Cyhoeddus Eraill:

Derbyniwyd ymatebion gan: Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (NMGW), Cyngor Ymgynghorol Dyfrffyrdd Mewndirol (IWAAC), Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (RCAHMW), Cynulliad Rhanbarthol y Goledd Orllewin (NWRA). Ni wnaeth yr olaf unrhyw sylwadau heblaw am ddweud yr hoffai gymryd rhan mewn ymgynghoriad ynglyn â datblygiadau eraill gydag arwyddocâd traws-ffiniol.

9.1 Ymateb:

9.1.1 Mae NMGW yn nodi synergedd clir gyda'i gynigion ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe, yn ogystal â phartneriaethau cyfredol neu arfaethedig eraill (e.e. HERIAN); mae'r Comisiwn Brenhinol (RC) yn nodi y dylid fod wedi cyfeirio ato yn DIG.

9.1.2 Mae IWAAC yn gorff yn y DU wedi'i noddi gan DEFRA sydd â chylch gwaith penodol yn ymwneud â dyfrffyrdd a goruchwylio Dyfrffyrdd Prydain; roedd yn rhagfynegi dull strategol DIG yn ei adroddiad 1 yn ddiweddar ar Ddyfrffyrdd Prydain ac yn ei ymateb mae IWAAC yn croesawu bod DIG yn cydnabod gwerth a photensial dyfrffyrdd yng Nghymru i amcanion Cynulliad Cymru a'i asiantaethau ac i anghenion cymunedau lleol yn y dyfodol. Y gobaith yw, yn arbennig y bydd DIG yn annog y Cynulliad ac Awdurdodau Lleol perthnasol, mewn partneriaeth ag eraill, i gefnogi ceisiadau ar gyfer cwblhau adfer Camlesi Maldwyn a Mynwy ac Aberhonddu. Mae'n nodi, er bod Llywodraeth Cynulliad Cymru (WAG) yn uniongyrchol gyfrifol am ddyfrffyrdd mewndirol (fel y mae Gweithrediaeth yr Alban) mae ganddo gyfrifoldebau cymharol am amgylchedd a choridorau dyfrffyrdd a bod goblygiadau prosiectau sydd wedi'u nodi yn DIG yn berthnasol iawn i gynlluniau a rhaglenni WAG a'i ASPB.

9.2 Cwmpas:

9.2.1 Mae'r RC yn galw am gynnwys afonydd (Gwy, Hafren, Conwy a'r Teifi, gyda Llyn Peris a Llyn Padarn)

9.3 Blaenoriaethau a Themâu:

9.3.1 Nid yw'r RC a NMGW yn gwneud unrhyw sylwadau arbennig am hyn. Mae IWAAC o'r farn y dylid rhoi blaenoriaeth i'r tri phrosiect adfer dyfrffyrdd mewndirol craidd yn DIG (Maldwyn. Mynwy ac Aberhonddu gan gynnwys Cangen Crymlyn, Abertawe Castell-nedd a Chamlas Tennant) ond yn ailofyn fel yn 2001 am astudiaeth ddichonoldeb i ystyried pa werth allai ddeillio o ddarnau o gamlesi fel camlesi Morgannwg ac Aberdâr

9.3.2 Mewn modd tebyg mae IWAAC yn galw am i'r dyfrffyrdd mewndirol, afonydd a llynnoedd gael eu cynnwys yn y strategaeth, yn enwedig y rhai a reolir gan AA yng Nghymru. Mae'n nodi hefyd y potensial ar gyfer y Gyfres o 14 o Lociau yn ardal Cefn ar Gangen Crymlyn i ddatblygu'n atyniad twristiaeth a bod yna safleoedd treftadaeth diwydiannol arwyddocaol ar gamlesi Abertawe Castell-nedd a Thennant.

9.4 Amserlen:

9.4.1 Mae RC yn derbyn y rhain; mae IWAAC yn nodi y bydd hyn yn dibynnu'n helaeth ar y cyllid fydd ar gael ac ar lwyddo i'w ennill.

9.5 Materion Eraill:

9.5.1 Mae RC yn nodi'r swyddogaeth a all fod ganddo i ddarparu gwybodaeth hanesyddol a diwydiannol ar dreftadaeth ddiwydiannol dyfrffyrdd mewndirol

9.5.2 Mae yn nodi bod Pont Ddwr Pontcysyllte a Phont Ddwr a Thwnnel y Waun gerllaw eisoes, yn haeddiannol, wedi'u henwebu ar gyfer Statws Treftadaeth Byd (STB), ac yn annog partneriaid i hyrwyddo hyn, o ystyried pa mor agos yw'r pen-blwydd yn 200 oed, gan gymharu gyda'r llwyddiant a ddaeth yn sgil statws STB i Flaenafon. Gall yr asedau hyn, a dyfrffyrdd Cymru yn gyffredinol, ennill cydnabyddiaeth ryngwladol ehangach.

9.5.3 Mae NMGW yn cefnogi'r gwaith o greu gwefan dwristiaeth sy'n gysylltiedig â dyfrffyrdd Cymru; mae IWAAC yn cefnogi hyn a hefyd yn argymell cynnwys mwy am ddyfrffyrdd ar wefan twristiaeth BCC

9.5.4 Mae IWAAC yn nodi nifer o rwystrau strwythurol sy'n rhwystro dyfrffyrdd rhag sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau y gellid fel arall eu hystyried yn gyfraniadau gwerthfawr i strategaethau ac amcanion yr arianwyr eu hunain; mae enghreifftiau'n cynnwys methiant gwaith unioni pontydd isel mewn ceisiadau i Gyfarwyddiaeth Priffyrdd y Cynulliad, gwaith (e.e. ar gyfer marina neu adnewyddu dyfrffordd) mewn ardaloedd trefol nad ydynt yn gymwys ar gyfer cyllid mynediad gwledig neu adfywio UE ond a fyddai o fantais uniongyrchol i ardaloedd gwledig yn y pen draw; a'r anhawster cyffredinol i ennill ceisiadau ar gyfer prosiectau cyfalaf mewn twristiaeth lle mae'r manteision, er yn cael eu derbyn yn gyffredinol fel rhai real a chynhyrchiol yn rhy eang yn ddaearyddol neu fod angen gormod o amser cyn y byddant yn dangos Elw ar Fuddsoddiad (ROI) o fewn gofynion yr arianwyr.

9.5.5 Mae IWAAC yn amlygu'r ffaith bod cynlluniau Amcan 1posib eraill wedi'u nodi, a gall fod angen rhoi sylw brys iddynt os ydynt i gael eu hyrwyddo'n llwyddiannus yn yr amser sydd ar ôl ar gyfer rhaglen Gyllid yr UE.

9.6 Y Ffordd Ymlaen:

9.6.1 Mae IWAAC, NMGW a'r RC yn cefnogi ffurfio grwp strategol ac mae'r RC yn annog cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau yn y gymuned; mae IWAAC o'r farn y dylid cynnwys cynrychiolwyr yr ALI a'r sector gwirfoddol yn y grwp cenedlaethol.

9.6.2 Mae IWAAC yn ailadrodd y pwynt a wnaed (ibid[1]) bod 'angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru fod yn rhoi adnoddau ei asiantaethau datblygu ac awdurdodau lleol ar waith, mewn partneriaeth â Dyfrffyrdd Prydain ac awdurdodau dyfrffyrdd eraill, i sicrhau bod dyfrffyrdd Cymru yn cael eu hadfywio. Yn achos adfer Camlas Maldwyn sy'n croesi'r ddwy ffin bydd angen cydweithrediad agos rhwng yr awdurdodau yng Nghymru a Lloegr.'

Formatted: Bullets and Numbering

[1] Manteision dyfrffyrdd cynaliadwy: Dyfrffyrdd Prydain ers 1996, IWAAC, Mai 2003

10 Llywodraeth Leol:

Dyma'r cyrff awdurdodau lleol a ymatebodd: Cyngor Sir Fynwy (MCC), Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaiarn (TNLL), Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (NPTCBC), Cyngor Sir Casnewydd (NCCC), Cyngor Tref Pontardawe (TPC) Cyngor Sir Powys (PCC), Dinas a Sir Abertawe (SCCC), Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen (TCBC), Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (WCBC).

Mae'r cyrff hyn i gyd yn bartneriaid neu â diddordeb uniongyrchol yn y tri phrosiect adfer dyfrffyrdd sef Mynwy ac Aberhonddu gyda Changen Crymlyn (M&B), Maldwyn (Monty), Abertawe, Castell-nedd a Thennant (SNT). Mae llawer o'r ymatebion yn cynnwys cynigion manwl mewn cysylltiad ag adfer y rhain.

Formatted: Bullets and Numbering

10.1 Ymateb:

10.1.1 Cafwyd cefnogaeth i'r dull strategol,mewn egwyddor, gan y canlynol (bu rhai'n ofalus i nodi'n glir nad oedd hyn yn awgrymu eu bod yn ymrwymo i ariannu): MCC, NPTCBC, NCCC, PCC, SCCC, TCBC, WCBC

10.1.2 Pwysleisiodd Casnewydd bod angen i'r polisi cyflawn gael ei gymeradwyo neu ei fabwysiadu gan WAG a'i ASPB, (gyda Bwrdd DP a DEFRA gan nad ydynt wedi'u datganoli) a mynegwyd teimladau tebyg gan, PCC, SCCC, TCBC, WCBC.

10.1.3 Mae Cyngor Sir Powys yn dweud "Mae dyfrffyrdd yn gyffredinol, a Chamlas Maldwyn i raddau eithriadol, yn cynnig y potensial i fod yn brosiectau datblygu cynaliadwy blaenllaw i Gymru. Mae iddynt y potensial i droi ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn realiti."

10.1.4 Mae WCBC yn croesawu DIG fel "dull i ddatblygu gweledigaeth gyffredin i bawb sydd â rhan yn y gwaith o ddatblygu dyfrffyrdd Cymru" ac yn nodi bod dyfrffyrdd "mewn sefyllfa berffaith i elwa ar [y] symud tuag at ymestyn marchnadoedd gwyliau byr a gweithgareddau".

10.1.5 Mae NCCC yn dweud bod DIG yn cynrychioli "cam pwysig ymlaen i gyflawni strategaeth Cymru gyfan ar gyfer datblygu ein dyfrffyrdd mewndirol i'w llawn botensial er lles ein cymuned"

10.1.6 Mae TCBC yn nodi bod angen i'r holl bartneriaid yng Nghymru gefnogi strategaeth ar gyfer dyfrffyrdd yng Nghymru er mwyn darparu ar gyfer sicrhau bod y gwaith adfer yn cael ei gwblhau yn yr hirdymor a'r tymor canolig.

Formatted: Bullets and Numbering

10.2 Cwmpas:

10.2.1 Nododd SCCC bod Cronfa Ddwr Dyffryn Lliw a Blaentraeth Llwchwr yn enghreifftiau o ddyfrfannau y gellid eu cynnwys yn y strategaeth.

10.2.2 TCBC – ehangu'r cwmpas y tu allan i gamlesi, ond rhoi blaenoriaeth i waith adfer cyfredol ar gamlesi.

10.2.3 PCC – ehangu'r cwmpas yn y pen draw i gynnwys yr holl ddyfrffannau addas, megis Gwy, Hafren, Llyn Syfadden; mae NCCC yn cytuno – gan nodi'n arbennig yr afonydd a reolir gan AA

10.2.4 Mae NCCC yn nodi swyddogaeth sylweddol ALl yn y gwaith o reoli dyfrffyrdd – hwy sydd piau ac sy'n rheoli hanner hyd y camlesi yng Nghymru.

Formatted: Bullets and Numbering

10.3 Blaenoriaethau a Themâu:

10.3.1 Mae NPTCBC yn amlygu'r ddadl ar sail adfywio economaidd ac yn cefnogi'r amrywiaeth o brosiectau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol; mae NPTCBC wedi cyd-gefnogi astudiaeth ddichonoldeb i adfer SNT.

10.3.2 Mae PCC o'r farn bod y pum thema a nodwyd yr un mor bwysig.

10.3.3 Mae WCBC yn cefnogi'r pum thema; mae hefyd yn nodi bod Camlas Llangollen yn adnodd hamdden pwysig yn y Bwrdeistref ac wedi ymuno â'i bartneriaid i sicrhau dros £600,000 yn ddiweddar ar gyfer gwaith ar Bont Ddwr y Waun a Basn Trefor

10.3.4 Mae WCBC yn cefnogi'r gwaith o adfer camlesi M&B a SNT yn llwyr, ar yr amod bod bioamrywiaeth yn cael ei ddiogelu

10.3.5 Mae WCBC o'r farn y dylai bioamrywiaeth gael ei ychwanegu at y prif themâu trawsbynciol ac y gallai'r prosiectau sicrhau bod Dysgu Gydol Oes yn allbwn mwy amlwg. Mae TCBC hefyd pwysleisio allbwn bioamrywiaeth.

10.3.6 Mae NCCC am weld mordwyo yn cael ei ailgyflwyno i'r M&B cyn belled â'r môr – byddai marina yng Nghrindau nid yn unig yn rhoi iddo gyfleuster fel sydd gan bob dinas arall yng Nghymru, ond byddai hefyd yn sianeli manteision economaidd ar hyd rhannau gwledig y gamlas; mae NCCC o'r farn y gallai'r Gyfres o 14 o Lociau yn ardal Cefn ar Gangen Crymlyn ddatblygu'n atyniad sylweddol i ymwelwyr.

10.3.7 Mae TCBC yn nodi bod manteision arwyddocaol wedi dod yn sgil adnewyddu hyd yma a bod yna botensial llawer mwy

Formatted: Bullets and Numbering

10.4 Amserlen:

10.4.1 Mae PCC ac NCCC yn nodi y bydd hon yn cael ei phennu yn ôl y cyllid sydd ar gael ac y gall amgylchiadau lleol amrywio; mae PCC yn nodi bod gwaith adfer Maldwyn yn gynllun blaenoriaeth 2 i DP a'i fod ar y gweill

10.5 Materion Eraill:

10.5.1 Mae SCCC yn nodi ei bod yn bwysig fod y strategaeth yn integreiddio gyda Chynllun Gofodol WAG sydd ar fin ymddangos.

10.5.2 Mae PCC a WCBC am weld pob ALl yn rhoi sylw penodol i ddyfrffyrdd yn eu Cynlluniau Datblygu Unedol, Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth ac ati.

10.5.3 Mae PCC ac NCCC hefyd am i Gyfarwyddiaeth Priffyrdd WAG a chynlluniau ffyrdd ALl ystyried dyfrffyrdd ac i ALl allu gwneud cais i unioni strwythurau isel sy'n amharu ar fordwyo.

10.5.4 Mae NPTCBC yn cefnogi'r cynnig i gael gwefan dyfrffyrdd (fel y gwna'r NCCC), hyrwyddo twristiaeth dyfrffyrdd a chynigion Mynediad y De.

10.5.5 Cafwyd cytundeb cyffredinol ar yr amrywiaeth o brosiectau, gydag ALl yn cefnogi'r rhai y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt, a rhai, megis PCC, yn crybwyll amrywiaeth ehangach o brosiectau DIG yn ffafriol.

10.5.6 Mae ALl, megis MCC hefyd yn cynnig neu'n rhestru rhai o'u prosiectau hwy, megis creu hyfforddiant a swyddi yn y Ganolfan Crefftau Coed yng Nglanfa Goetre; y potensial ar gyfer mynediad gwell i bobl anabl a beiciau yng Ngofilon ac mae WCBC o'r farn bod yna angen am gyfleusterau dehongli trefi tadaeth ddiwydiannol wrth Bont Ddwr Pontcysyllte sydd wedi'i henwebu ar gyfer STB UNESCO (sydd ar hyn o bryd yn denu >250,000 o ymwelwyr y flwyddyn) ac yn galw am gefnogaeth i ennill statws WHS erbyn dathliadau'r ddau can mlwyddiant yn 2005.

10.5.7 Mae WCBC ac ALl eraill hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyd-hyrwyddo twristiaeth (mae WCBC eisoes yn cefnogi pecyn gwyliau byr 3 diwrnod ar gwch)

10.5.8 Mae NCCC yn nodi "nad yw'r ffordd y mae cyllid Amcan 2 wedi'i strwythuro yn ffafrio cynlluniau cyfalaf mawr er eu bod yn creu cyflogaeth sylweddol sy'n gysylltiedig â thwristiaeth".

10.5.9 Mae TCBC hefyd yn nodi anawsterau strwythurol i sicrhau cyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau dyfrffyrdd, a dim ond yn ysbeidiol y gellir gwneud y gwaith hwnnw, os o gwbl.

10.5.10 Mae'r NCCC a'r TCBC yn nodi y gall gwaith mewn ardaloedd trefol sydd wedi'u heithrio o'r cyllid oherwydd ei leoliad y tu allan i ardaloedd ERDF arwain at fanteision arwyddocaol i ardaloedd gwledig mewn gwirionedd.

10.5.11 Mae TCBC yn nodi y gall fod angen ffyrdd gwahanol o fesur neu gyfrifo ROI ar gyfer buddsoddi mewn dyfrffyrdd, h.y. dulliau sy'n fwy priodol o ran datblygu cynaliadwy. Dylid rhoi mwy o ystyriaeth i oes hir iawn y gwaith a'r manteision a ddaw dros amser a phellter, a bod yna fanteision ansawdd bywyd, megis gwella iechyd, yn ogystal â photensial ar gyfer gweithgaredd economaidd a diwylliannol trwy gyfranogiad y gymuned a hyfforddiant.

10.5.12 Mae TCBC ac ALI eraill yn awgrymu y gallai WAG ystyried llunio TAN ar gyfer dyfrffyrdd.

10.5.13 Mae TPC a TNLL yn rhoi cefnogaeth frwd ac ymarferol i'r gwaith ail-ddatblygu arfaethedig ar y dyfrffyrdd yn eu cyffiniau.

Formatted: Bullets and Numbering

10.6 Y Ffordd Ymlaen:

10.6.1 Mae PCC, TCBC ac ALI eraill yn cefnogi'n gryf y gwaith o sefydlu Grwp Llywio DIG.

10.6.2 Mae PCC yn cynnig y dylai Dyfrffyrdd Prydain ddarparu'r Ysgrifenyddiaeth, ond yn nodi ei bod yn hanfodol bod y Grwp yn cael ei arwain gan un o Weinidogion WAG; dylai grwpiau partneriaeth lleol adrodd i'r grwp cenedlaethol.

10.6.3 Mae TCBC yn cynnig y dylai'r grwpiau Cenedlaethol gyfarfod ddwywaith y flwyddyn i fesur cynnydd yn erbyn strategaeth genedlaethol, dan gadeiryddiaeth Gweinidog ac adrodd i Is-bwyllgor y Cynulliad.

10.6.4 Dylai grwpiau rhanbarthol neu leol adrodd i'r grwp cenedlaethol, ac efallai y dylai'r holl grwpiau gyfarfod yn flynyddol.

10.6.5 Mae TCBC yn argymell y dylid creu Cynllun Gweithredu Strategol gyda'r bwriad o nodi cyllid a darparu sail ar gyfer dulliau cydgysylltiedig ar gyfer ymgeisio am gyllid ar raddfa fawr.

10.6.6 Mae NCCC yn gwneud y pwynt y dylai ALI a'r sector Gwirfoddol gael eu gweld yn cymryd rhan fwy amlwg yn y strategaeth a thra'n cymeradwyo'r cynnig am weithgor cenedlaethol, mae o'r farn y dylid cynnwys cynrychiolwyr yr holl bartïon mawr sydd â diddordeb.

Formatted: Bullets and Numbering

11. Cyrff â diddordeb masnachol:

Derbyniwyd ymatebion gan Parsons Brinckerhoff (PB), cwmni o beirianwyr ymgynghorol sy'n gweithio yn y sector cludiant yng Nghymru a Newport Unlimited (NUL), cwmni adfywio trefol a sefydlwyd trwy gydcyllid gan WAG ac Awdurdod Datblygu Cymru (WDA); Cymdeithas Gadwraeth Camlesi Castell-nedd a Thennant (NTCPS), sy'n dod â buddion ynghyd i adfer camlesi Castell-nedd a Thennant sy'n eiddo preifat ac yn cael eu rheoli ar wahân (mae rhai pwyntiau a wnaed gan NTCPS, e.e. ar agweddau ar adfer, wedi'u nodi yn adran cymdeithasau gwirfoddol Dyfrffyrdd, yn ôl eu perthnasedd).

Formatted: Bullets and Numbering

11.1 Ymateb:

11.1.1 Ymateb NUL oedd bod y cwmni i raddau helaeth yn cefnogi'r cynlluniau i roi dyfrffyrdd yn ôl ar yr agenda genedlaethol.

11.1.2 Roedd PB yn ystyried bod adroddiad DIG yn 'drosolwg rhagorol' o brosiectau cenedlaethol strategol.

11.2 Cwmpas:

11.2.1 Ymateb NUL oedd bod Prif gynllun Dinas Casnewydd ar gyfer Canol y Ddinas yn hyrwyddo'r gwaith o adfer a chreu cysylltiadau newydd gyda glannau'r dŵr a'i fod yn cefnogi'r cynnig ar gyfer marina yng Nghrindai (er y bydd angen ystyried ail-ddatblygu ochr yn ochr â blaenoriaethau adfywio eraill sy'n dod i'r fei yng nghanol Casnewydd).

11.2.2 Mae'r NUL o'r farn y byddai cynnwys yr Afon Wysg mewn strategaeth Dyfrffyrdd i Gymru o gymorth i benderfynu ar y prosiect.

11.2.3 PB – yn nodi y byddai'n ddefnyddiol i gydgysylltu'r rhwydwaith dyfrffyrdd gyda'r rhwydwaith cynyddol o lwybrau seiclo a llwybrau troed hir.

11.2.4 PB – nododd botensial sylweddol dyfrffyrdd i gludo dŵr ar gyfer cyflewnad o ddŵr crai neu ar gyfer cael gwared ar ddŵr llifogydd – y ddau yn ddefnydd cynaliadwy. Mae enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys y cyflenwad dŵr cyfredol i ardaloedd diwydiannol Baglan Port Talbot a Margam.

Formatted: Bullets and Numbering

11.2.5 PB – nododd pa mor bwysig yw camlesi bwydo'r Dociau i Fae Caerdydd a doc Casnewydd, a bod i'r cyntaf y potensial i'w defnyddio ymhellach.

11.2.6 PB – nododd bod yna ddyfrffannau eraill, gan gynnwys Sianeli Melin Ddŵr (a melinau dŵr sy'n bwydo ac yn cael eu gweithredu fel atyniadau twristiaid) ac eraill sy'n gweithredu heb fynediad i'r cyhoedd y gellid o bosib eu hannog i gyfrannu mwy at yr economi.

11.3 Blaenoriaethau a Themâu:

11.3.1 NUL – dylid barnu pob prosiect yn ôl ei haeddiant ai fanteision cymdeithasol-economaidd posib. "Yn achos Casnewydd gall ail-ddatblygu'r glannau fod o gymorth i ddarparu twf economaidd, patrymau cynaliadwy o ddatblygiad, gwell amgylchedd a chyfle ar gyfer gweithgareddau hamdden a diwylliant.

11.3.2 PB – mae o'r farn y dylai blaenoriaeth prosiect fod yn seiliedig ar ei allu i sicrhau llifau refeniw i dalu costau cynnal a chadw a gweithredu yn y dyfodol.

11.4 Amserlen:

11.4.1 Mae NUL yn nodi y bydd datblygiadau yn dibynnu ar adnoddau.

11.5 Materion Eraill:

11.5.1 PB – yn ogystal â'r potensial i wella gwerth y tir, nododd bod dyfrffyrdd yn darparu potensial ar gyfer eu defnyddio ar gyfer llwybrau seiclo a cherdded.

11.5.2 PB – nododd (gweler uchod) y datblygiad masnachol er cynaliadwy ar gyfer defnyddio dyfrffyrdd mewndirol i gludo dŵr ac roedd yn tybio y gallai fod yna farchnad sy'n tyfu ar gyfer dŵr sy'n tarddu o Gwm Nedd i gyflenwi ardal ddiwydiannol bwysig y De ac y gallai hyn fod yn addas ar gyfer partneriaeth 'Grid Dŵr'.

11.5.3 Mae NTCPS hefyd yn nodi y bydd amddiffyn dyfrffyrdd yn diogelu cyflenwad o ddŵr diwydiannol i gynhyrchwyr yng Nghwm Nedd sydd eisoes yn dibynnu ar y cyflenwad.

11.5.4 Mae NTCPS yn nodi ei fod wedi sicrhau cyllid arwyddocaol yn ychwanegol i'w gyllid ei hun i adfer a glanhau rhannau o'r gamlas, gan gynnwys cynllun Amcan 1 gwerth £2.8 miliwn i gyflawni'r gwaith o gael gwared ar silt llygredig.

11.5.5 Mae NTCPS yn nodi ei fod o'r farn y byddai darparu cyfleuster hamdden trwy'r dyfrffyrdd ar hyd Cwm Nedd yn denu mwy o ymwelwyr o dipyn ac yn gatalydd ar gyfer sefydlu diwydiant twristiaeth yn yr ardal gan roi hwb i adfywio economaidd.

Formatted: Bullets and Numbering

11.6 Y Ffordd Ymlaen:

11.6.1 NUL – mae o'r farn mai dim ond os byddai ganddo gylch gwaith penodol ar gyfer darparu a'r gallu i sicrhau cyllid y byddai gweithgor yn effeithiol. Rhaid i'r gweithgor allu sefydlu blaenoriaethau trwy gonsensws a darparu cyllid yn ôl y blaenoriaethau hyn. Felly, bydd y gweithgor ond yn effeithiol os bydd ganddo bwerau priodol wedi'u dirprwyo gan sefydliadau partner.

11.6.2 Nid yw PB o'r farn bod gweithgor cenedlaethol yn gallu hyrwyddo mwy o weithgaredd gan mai mynediad i gyllid fydd yn cyfyngu fwyaf o hyd.

11.6.3 Fodd bynnag mae PB o'r farn mai adnodd cenedlaethol ar gyfer prosiectau a fydd o gymorth i ddarganfod neu gyfeirio at rai llwybrau ar gyfer sicrhau cyllid fyddai canlyniad mwyaf effeithiol yr ymgynghori.

12 Cyrff Proffesiynol:

Derbyniwyd ymatebion dan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH) a Sefydliad Cynllunio Tref Brenhinol (RTPI).

12.1 Ymateb:

12.1.1 Mae'r ddau sefydliad yn croesawu nod y strategaeth ac yn cydnabod gwerth dod â phartneriaid sy'n gysylltiedig ynghyd mewn gweithgor neu weithgorau. Mae RTPI yn nodi bod ennill a chadw cefnogaeth eang gan y cyhoedd, y gymuned breifat a sectorau gwirfoddol yn bwysig er mwyn datblygu cynllun sy'n un a 'wnaed yng Nghymru'.

12.1.2 Mae CIEH yn rhoi cefnogaeth gref i ddatblygu arferion mwy cynaliadwy a'r dull strategol a fabwysiadwyd yn DIG.

12.1.3 Byddai CIEH yn rhoi cefnogeth i ddefnyddio dyfrffyrdd ar gyfer cludiant lle gellid cyflawni hyn gyda chyn lleied o effaith andwyol â phosib i'r amgylchedd.

12.1.4 Mae CIEH y dadlau y gallai dyfrffyrdd ddarparu cefnogaeth i weithgaredd economaidd mewn ffordd wasgaredig ond gwerthfawr, a gall fod yn hanfodol i adfywio economi cefn gwlad Cymru a gall gynorthwyo i gynnal hyfywedd pentrefi gwledig.

12.2 Cwmpas:

12.2.1 RTPI – yn cefnogi gan gynnwys amwynderau a gweithgareddau y porthladdoedd a'r arfordir

12.2.2 Mae CIEH y cefnogi'r cynnydd yn y defnydd o ddyfrffyrdd ar gyfer cludiant

12.2.3 Mae CIEH yn awgrymu y gall fod yna werth i gysylltu camlesi ag afonydd mordwyol, megis y Wysg yng Nghasnewydd

12.3 Blaenoriaethau a Themâu:

12.3.1 Mae RTPI o'r farn y gellid rhoi sgôr neu bwysiad i'r themâu ar gyfer asesu prosiectau, gan osod blaenoriaethau yn ôl y sgôr; dadl CIEH yw y dylai pob prosiect fod yn gallu dangos y bydd yn hyrwyddo'r pum thema, ac y dylid meincnodi prosiectau yn erbyn ei gilydd, gan ddefnyddio dadansoddiad wedi'i bwysoli o blaid y tair thema gyntaf

12.3.2 Ni wnaeth un o'r ddau sefydliad sylw ar y prosiectau eu hunain.

12.3.3 Cafwyd sylw manwl pellach gan CIEH ar y pum thema:

12.3.4 Adfywio Economaidd – mae CIEH yn annog defnyddio safleoedd tir llwyd, yn enwedig wrth ddatblygu glannau doc neu fasn, a'r manteision treftadaeth lle mae adeiladau sy'n cael eu hail-ddefnyddio o ddiddordeb archeolegol neu hanesyddol.

12.3.5 Adfer Cefn Gwlad – Mae CIEH yn nodi y gall gwella'r rhwydwaith camlesi fod yn hynod werthfawr wrth ddiogelu sgiliau gwledig pwysig megis plygu gwrychoedd a bod y cynnydd yn y gweithgaredd economaidd yn cefnogi busnesau yn seiliedig ar dwristiaeth a chamlesi megis iardiau atgyweirio ac yn cyfrannu at noddi busnesau a chyfleusterau eraill sy'n rhan o ruddin y gymuned leol; h.y. swyddfeydd y post a banciau.

12.3.6 Byw'n Gynaliadwy – Mae CIEH yn nodi'r cyfraniad y gall llwybrau camlesi ei wneud i gerdded a seiclo a pha mor berthnasol yw i ymgynghoriad 'Byw'n Iach a Gweithgar' WAG (Dringo'n Uwch: Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden Egnïol yng Nghymru); Nododd CIEH y gall dyfrffyrdd hefyd fod yn lleoliad gwerthfawr ar gyfer addysg.

12.4 Amserlen:

12.4.1 RTPI – yn cael ei phenderfynu i raddau helaeth gan y cyllid sydd ar gael a'r llwyddiant i'w sicrhau

12.5 Materion Eraill:

12.5.1 Mae RTPI yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu ymgyrch hyrwyddo twristiaeth gynhwysfawr.

12.5.2 Mae RTPI yn nodi nifer o strategaethau a rhaglenni y dylai strategaeth DIP integreiddio â hwy, gan gynnwys strategaethau Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol, mentrau Bwrdd Croeso Cymru ar gyfer gwybodaeth i dwristiaid, gwefannau a sicrhau ansawdd, menter HERIAN, Strategaeth Pysgodfeydd Hamdden Mewndirol AA, a chynlluniau a rhaglenni Cymdeithas Porthladdoedd Prydain a'r Awdurdodau Porthladd perthnasol.

12.5.3 Mae CIEH yn argymell y dylid manteisio ar y rhagdybiaeth gynllunio o blaid arallgyfeirio adeiladau ffermydd a thir ar gyfer datblygu busnesau sy'n ymwneud â dyfrffyrdd a chreu swyddi.

12.5.4 Mae CIEH hefyd yn argymell cydgysylltu gyda Chynlluniau Trafnidiaeth Lleol CDU yr ALl a'r cynlluniau Datblygu fel y gwna'r Parciau Cenedlaethol; mae hefyd yn nodi pa mor berthnasol yw Cynlluniau Datblygu Twristiaeth BCC

12.6 Y Ffordd Ymlaen:

12.6.1 Mae'r RTPI yn cefnogi ffurfio gweithgor i gynnwys y Cynulliad, ASPB, Awdurdodau Mordwyo ac Awdurdodau Lleol

12.6.2 Mae'r CIEH yn nodi y byddai am fod yn rhan o grwp strategol cenedlaethol ac yn awgrymu cyrff eraill megis Sefydliad Iechyd Gwledig a all fod yn dymuno cael eu cynnwys.

12.6.3 Mae CIEH yn argymell y dylai'r grwp cenedlaethol sefydlu is-bwyllgorau Gorchwyl a Gorffen a fyddai'n cael eu diddymu pan fyddai'r gwaith wedi dod i ben

12.6.4 O ran prosiectau, mae'r CIEH yn awgrymu y bydd yn bwysig ystyried safbwyntiau cyrff eraill.

Formatted: Bullets and Numbering

Formatted: Bullets and Numbering

Formatted: Bullets and Numbering

13. Pleidiau Gwleidyddol, Aelodau Etholedig

Roedd y ddau ymateb a dderbyniwyd gan Blaid y Democratiaid Rhyddfrydol (LDP), h.y. Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (WLD) a Democratiaid Rhyddfrydol Sir Drefaldwyn (MLD) (Lembit Opik AS, Mick Bates AS, Yr Arglwydd Hooson).

13.1 Ymateb:

13.1.1 Mae MLD yn gefnogol i hyrwyddo dyfrffyrdd a dyfrfannau yng Nghymru ac yn croesawu fframwaith strategol ar gyfer ail-fywiogi dyfrffyrdd.

13.1.2 Yn ôl WLD mae 'Dyfrffyrdd i Gymru wedi creu cryn argraff arnynt ac maent yn edrych ymlaen iddo gael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer trafodaeth cyfarfod llawn'.

13.1.3 Dylai pob datblygiad dyfrffyrdd fod yn gynaliadwy – mae WLD yn nodi'n arbennig ymrwymiad statudol y Cynulliad i ddatblygu cynaliadwy a bod dyfrffyrdd yn adnodd allweddol i gyflawni hyn.

13.2 Cwmpas:

13.2.1 Mae WLD yn nodi potensial porthladdoedd a marinas i roi mwy o gynaliadwyedd i'r fenter, a fyddai'n ffurfio man cychwyn a gorffen ar gyfer mentrau hamdden a masnach.

13.3 Blaenoriaethau a Themâu:

13.3.1 Mae MLD "yn hynod falch bod Sir Drefaldwyn yn mynd i elwa ar lu o brosiectau model llai sydd â'r nod o gynorthwyo i adfer cefn gwlad, adfywio economaidd, byw'n gynaliadwy a bywiogrwydd diwylliannol"

13.3.2 Mae MLD yn nodi bod arian ar gyfer rhai o brosiectau'r DIG eisoes wedi'i sicrhau.

13.3.3 Mae MLD yn nodi y dylai'r camau gweithredu ddilyn o'r themâu ond y brif her yw cydbwyso ystyriaethau amgylcheddol gyda chyfleoedd economaidd ac 'y dylem gofio bod camlesi wedi'u hadeiladu yn wreiddiol at ddibenion economaidd a bod yna fanteision economaidd o'u hadfer"

13.3.4 Mae WLD yn nodi y dylai adfywio economaidd a datblygu cynaliadwy fod wrth wraidd y fenter strategol.

13.4 Amserlen:

13.4.1 Awgryma MLD y gellid ymestyn yr amserlen ar gyfer adfer Camlas Maldwyn er mwyn gostwng costau llafur trwy ddefnyddio cefnogaeth gwirfoddolwyr

13.5 Materion Eraill:

13.5.1 Rhaid i WAG gydnabod cyd-destun polisi dyfrffyrdd, h.y. Cynllun Gofodol Cymru, Cynlluniau Trafnidiaeth Integredig Lleol, Cynlluniau Datblygu Lleol, Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol, Strategaethau Twristiaeth Cymru, Cyllid Ewropeaidd.

13.5.2 Mae WAG wedi rhannu cyfrifoldebau cabinet ar gyfer dyfrffyrdd.

13.5.3 Mae WLD o'r farn y dylid defnyddio dyfrffyrdd nid yn unig ar gyfer hamdden a thwristiaeth, ond y dylid annog eu defnyddio ar gyfer cludiant lle'n bosib.

13.5.4 Mae WLD yn cydnabod y bydd achosion o wrthdaro oherwydd sensitifrwydd amgylcheddol ar y naill law a gweithgareddau masnachol ymarferol ar y llaw arall ar ddyfrffyrdd yn codi o dro i dro.

13.6 Y Ffordd Ymlaen:

13.6.1 Mae MLD yn cefnogi creu gweithgor, 'cyn belled ag y bo'r canlyniadau dymunol wedi'u sefydlu cyn cynnal unrhyw drafodaethau manwl ar brosiectau"

13.6.2 Cynnig MLD yw bod y grwp yn cynnwys Cadair ac aelodau sydd â phleidlais a rhai heb bleidlais. Rhaid ymgynghori â'r holl grwpiau dyfrffyrdd, y grwpiau adfywio gwirfoddol a grwpiau amgylcheddol ynglyn â'r strategaeth. Rhaid i'r ymgynghori ystyried saf bwyntiau'r gymuned leol yn ogystal â'r grwpiau lobïo

13.6.3 Mae WLD yn awgrymu y dylai'r grwp cenedlaethol gael partneriaethau atodol ac y dylai'r gweithgor roi adroddiad blynyddol o'i weithgareddau i'r Cynulliad Cenedlaethol.

13.6.4 Awgryma WLD efallai mai DP yw'r corff priodol i dderbyn cyfrifoldeb cyffredinol am gyfeiriad strategol ond bydd angen cydweddu prosiectau gyda chwaer sefydliadau, fel y gall cyrff eraill gymryd yr arweiniad ar brosiectau penodol ar sail achos.

13.6.5 Mae WLD yn awgrymu y dylid ystyried y gweithgor fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, sy'n atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol trwy Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad gyda gweinidogion eraill yn cael eu gwahodd i fynychu lle mae dyfrffyrdd yn ymwneud â'u portffolios hwy.

13.6.6 Awgrym WLD yw y gellid defnyddio'r Grwp Pob Plaid cyfredol ar ddyfrffyrdd fel fforwm ar gyfer trafodaeth bellach a meddwl yn ddamcaniaethol

14 Y Sector Gwirfoddol – Dyfrffyrdd

Derbyniwyd ymateb gan y cyrff canlynol: Ymddiriedolaeth Camlesi Mynwy, Aberhonddu a'r Fenni Cyf (MBACT), Cymdeithas Dyfrffyrdd Mewndirol (IWA) – sydd â bron 500 o aelodau yng Nghymru, Ymddiriedolaeth Adfer Dyfrffordd Maldwyn (MWRT), Cymdeithas Camlas y Shropshire Union (SUCS), Swansea-Waterlinks.com (SW), Cymdeithas Camlas Abertawe (SCS). Cyfyngodd rhai cymdeithasau eu sylwadau i'r dyfrffyrdd y mae ganddynt hwy ddiddordeb arbennig ynddynt, tra bod eraill wedi rhoi sylw i'r materion ehangach. Gwnaed nifer o bwyntiau gan Gymdeithas Gadwraeth Camlesi Castell-nedd a Thennant (NTCPS), a nodir hwy yma oherwydd eu perthnasedd.

14.1 Ymateb:

14.1.1 Roedd cymdeithasau a mudiadau sector gwirfoddol Dyfrffyrdd yn croesawu egwyddorion, gweledigaeth a dull DIG ac yn awyddus i weld y prosiectau a restrwyd, ac eraill, yn cael eu gwireddu. Mae rhai yn mynegi rhywfaint o bryder ynglyn ag ymrwymiad y Llywodraeth (ganolog a lleol, gan gynnwys Dyfrffyrdd Prydain ei hun) i'r gwaith adfer a gobaith (IWA) yw y bydd DIG yn 'gweithredu fel catalydd'. Mae rhai'n dadlau nad yw'r prif fanteision (h.y. estyniadau sylweddol i ddyfrffyrdd y gellir eu mordwyo a gwell mynediad yn gyffredinol) yn cael eu gwireddu am fod angen cwblhau prosiectau strategol sy'n peri rhwystr. Mae eraill yn cydnabod yr amserlen faith y gall fod ei hangen i wireddu rhai prosiectau ond maent yn hyderus y gellir gwneud cynnydd yn gyson dros amser, os bydd partneriaid yn cadw ffydd ac yn cydweithio'n strategol. Mae'r IWA yn dadlau bod 'dadl gref dros fynd ymlaen â'r gwaith hwn'.

14.1.2 Roedd yr ymatebwyr gwirfoddol yn gyffredinol yn teimlo'n gryf iawn nad yw adroddiad y DIP yn adlewyrchu'r swyddogaeth hanfodol y mae hwy a'u haelodau gwirfoddol wedi'i chyflawni nid yn unig yn y gwaith corfforol o adfer dyfrffyrdd mewndirol yng Nghymru ond hefyd am bledio dros eu gwerth economaidd, cymdeithasol a threftadaeth hirdymor. Maent yn ystyried bod eu cyfranogiad parhaus yn hanfodol ar gyfer yr agweddau hyn yn y dyfodol ac yn dadlau, gyda gwahanol gynigion, y dylent gael eu cynnwys yn y gweithgor cenedlaethol yn ogystal ag yn y grwpiau prosiect lleol.

14.1.3 Tra'n cydnabod bod adfer dyfrffyrdd er mwyn gallu eu defnyddio'n ymarferol (ar gyfer twristiaeth, hamdden, chwaraeon) yn hanfodol er mwyn sicrhau eu parhad i'r dyfodol, maent yn rhybuddio rhag gor-ddatblygu ar lannau'r dyfrffyrdd, a all fygwth eu llonyddwch a thanseilio eu gwerth fel ased i'r amgylchedd ac i fioamrywiaeth.

14.1.4 Mae MWRT yn nodi ei bod yr un mor bwysig bod WAG, WDA, CCGC yn cydnabod bod yn rhaid amddiffyn dyfrffyrdd a'u gwella ar gyfer ei defnyddio gan y gymuned gyfan ac na ddylai hwylustod byrdymor fygwth y manteision hirdymor.

14.1.5 Mae MWRT yn nodi mai dim ond trwy gydweithio rhagorol y bu'n bosib adfer Camlas Maldwyn, a fu unwaith bron â chael ei difetha'n llwyr gan ddatblygiad priffordd arfaethedig, a gallai hyn ddigwydd mewn mannau eraill.

14.1.6 Nododd SUCS ei waith yn achub Camlas Maldwyn a'i swyddogaeth allweddol barhaus i ddarparu cyllid i gefnogi prosiectau ac ar gyfer adfer asedau megis lociau, a sicrhau cyllid na ellid ei gael heb bartner sector gwirfoddol.

14.1.7 Mae SCS yn dadlau y dylai dyfrffyrdd Prydain gymryd mwy o gyfrifoldeb dros ddatblygu dyfrffyrdd Cymru, darparu arweiniad cyffredinol ac ymrwymo mwy o gyllid ac ymgymryd â'r gwaith o adfer yr holl rannau sy'n eiddo iddo.

Formatted: Bullets and Numbering

14.2 Cwmpas:

14.2.1 Mae NTCPS o'r farn y dylid ymestyn y cwmpas i gynnwys rhai o'r dyfrffyrdd sydd wedi cael eu hanwybyddu gydag ond darnau bychain ohonynt ar ôl, a'u cynnwys weithiau mewn datblygiadau newydd, gan gyfeirio at y potensial mewn lleoedd fel Llwybr y Mileniwm, Llanelli a Harbwr a Dociau Porth Tywyn a Pharc Gwledig Pen-bre.

14.2.2 Mae'r IWA yn crybwyll yn arbennig y cynigion gafodd eu gwneud, a all nawr fod yn ymarferol dan Amcan 1 (ALl Rhondda Cynon Taf), ar gyfer adfer rhan o Gamlas Morgannwg sy'n llifo ger Crochendy ac Amgueddfa Nantgarw.

14.2.3 Nododd SCS yr arwyddocâd a pherthnasedd cenedlaethol Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe a'r cyswllt posib gyda threftadaeth Copperopolis Abertawe.

14.2.4 Mae SW yn cynnig y dylid adfer mordwyo ar yr Afon Tawe a byddai hefyd yn hoffi gweld Doc Brunel Llansawel yn cael ei gynnwys mewn strategaeth DIP.

14.3 Blaenoriaethau a Themâu:

14.3.1 Mae MBACT yn dadlau y dylid rhoi blaenoriaeth a chefnogaeth i wireddu Prosiect Marina Crindai fel y gall gynnwys atyniad newydd, gan ychwanegu ar broffil Byd Eang Cymru pan gynhelir Cwpan Ryder yn y cyffiniau yn 2010.

14.3.2. Mae IWA yn dadlau, tra bo gweithgareddau adfywio economaidd eraill yn ddilys, mae mordwyo gan ddefnyddwyr cychod cyfredol yn gynhyrchiol yn economaidd ac yn 'nodwedd annatod o ddyfrffyrdd' ac y dylai hyn gael blaenoriaeth uchel.

14.3.3 Mae SW yn gwrthod yr angen i osod blaenoriaethau at lefel gweithgor cenedlaethol; 'mae hon yn dasg unigol i bob un o'r sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli'.

14.4 Amserlen:

14.4.1 Mae MBACT yn gosod amserlenni ar gyfer adfer M&B: o Bontnewydd i Gasnewydd ymhen 6 mlynedd (2009) a Changen Crymlin ymhen 8 mlynedd (2011).

14.4.2 Nododd IWA y gall amserlen Amcan 1 fod yn dyngedfennol i nifer o brosiectau – mae angen nodi prosiectau cymwys nawr a'u cynnig cyn y daw'r cyllid i ben yn 2006.

14.4.3 Mae'r SCS o'r farn y gellid adfer Camlas Abertawe cyn pen 10 mlynedd.

14.5 Materion Eraill:

14.5.1 Mae MWRT yn awgrymu y dylai WAG ymrwymo i egwyddorion DIG trwy ei pholisïau cynllunio, ac y gellid gwneud hyn o bosib trwy gyhoeddi TAN Dyfrffyrdd

14.5.2 Mae SUCS am weld Camlas Maldwyn wedi'i hadfer yn llwyr i'r Drenewydd os yw hyn yn bosib yn ffisegol

14.5.3 Mae SUCS wedi ymrwymo'n llwyr i Strategaeth arfaethedig Rheoli Cadwraeth Camlas Maldwyn

14.5.4 Nododd NTCPS nifer o brosiectau adfer arwyddocaol sydd eisoes ar y gweill gan bartneriaid, megis adfer Camlas Castell-nedd trwy ganol y dref gyda datblygiad masnachol a thai cydnaws ar hyd y coridor, gweithredu cwch pleser llwyddiannus a gwell mynediad gan arwain at ddefnydd helaeth gan y rhai sy'n canwio. Mae cynlluniau'r dyfodol yn cynnwys creu canolfan ddehongli ac addysgol yn Nhonna, cael gwared ar 7 cilometr o silt llygredig (mae cyllid o £2.8 miliwn wedi'i sicrhau) ac adfer Lloc Tynyr-Heol gan ryddhau rhan sylweddol o'r gamlas ar gyfer mordwyo

Formatted: Bullets and Numbering

14.5.5 Mae'r NTCPS yn tynnu sylw at arwyddocâd ei ddyfrffyrdd ar gyfer nodweddion amgylcheddol a hanesyddol pwysig cysylltiedig cyfagos megis Cors Crymlyn a Chors Pant-y-Sais, Abaty a Gwaith Haearn Castell-nedd a rhaeadrau enwog Nedd Fechan

14.5.6 Mae MBACT ac IWA yn honni bod dyfodol Cangen Crymlyn eisoes wedi'i diogelu a hoffai weld gwaith adfer i Gwmcarn ac adfer y Gyfres o Bedwar ar Ddeg o Lociau yn cael blaenoriaeth; mae IWA yn galw am astudiaeth ddichonoldeb ar frys.

14.5.7 Mae MBACT yn rhestru prosiectau a allai ychwanegu at werth adfer camlas M&B: ychwanegu gwerth i safle tir llwyd trwy adfer Pont Ddwr Pontywaun; y potensial i ganolfan wybodaeth Pedwar ar Ddeg o Lociau fod yn Ganolfan Groeso; Canolfan Ragoriaeth Peirianneg y Dyfrffyrdd yn cael ei chyplysu â Phrifysgol Casnewydd, a'i chysylltu ag Amgueddfa forol newydd Casnewydd sy'n arddangos ei chasgliad o gychod hanesyddol sydd o bwysigrwydd rhyngwladol.

14.5.8 Mae IWA yn cefnogi llawer o'r rhain hefyd ac yn cynnig testunau ymchwil ôl-raddedig sydd eu hangen yng Nghymru: (e.e. cynllun cragen llong sy'n eco-gyfeillgar a chael gwared ar ddwr 'llwyd') ac yn ychwanegu prosiectau megis adfer Glanfa Llan-ffwyst, sydd â'r potensial i gyfuno ymweliadau â Phwll Mawr Blaenafon; cynnyrch ymweliad cyfunol ar gyfer Ffordd Goedwig Cwmcarn a Changen Crymlyn sydd gerllaw; cydfarchnata'r Pedwar ar Ddeg o Lociau, Ty Tredegar a Phont Gludo Casnewydd.

14.5.9 Mae IWA yn rhoi cefnogaeth i ddatblygu Marina yng Nghrindai, Casnewydd; Pont Ddwr Cwmbrân a datblygu canolfan gamlesi bwysig arall ar yr M&B, yn ogystal ag Aberhonddu a Glanfa Goetre.

14.5.10 Mae IWA y nodi y byddai prosiectau sgiliau treftadaeth sydd wedi'u cynnig ar gyfer Camlas Maldwyn yr un mor werthfawr o safbwynt cyflogaethyn y De.

14.5.11 Mae IWA yn dadlau yn erbyn gwefan ar wahân ac am weld mwy o integreiddio rhwng gwefannau BCC a DP.

14.5.12 Cynnig SCS yw y dylai DP fabwysiadu prosiect blaenllaw pwysig yng Nghymru, tebyg mewn cwmpas i'r Anderton Lift.

14.5.13 Awgryma SW y gallai prosiect o'r fath fod yn un ar gyfer adeiladu dyfrffordd newydd yn cysylltu Camlas Abertawe gyda'r Afon Tawe.

Formatted: Bullets and Numbering

14.6 Y Ffordd Ymlaen:

14.6.1 Mae MBACT yn cynnig grwp gweithredu tri misol, gydag is-bwyllgorau, o ddewis yn cael ei gadeirio gan unigolyn o'r tu allan i'r maes gwleidyddol. Mae cyrff ychwanegol a ddylai fod yn aelodau wedi'u rhestru gan MBACT.

14.6.2 Byddai IWA yn croesawu gweld gweithgor yn cael ei ffurfio; byddai cyfraniad awdurdodau lleol yn bwysig a byddai IWA am fod yn aelod.

14.6.3 Mae SCS yn cefnogi gweithgor ac yn awgrymu y dylai aelodau ychwanegol gynnwys cyrff megis y CBI a'r WDA.

14.6.4 Mae SCS hefyd yn cynnig bod DP yn penodi Swyddog Prosiect i gynllunio a gweithredu prosiectau, codi arian mewn cysylltiad â phartneriaid â chysylltu'n rhagweithiol; bod DP hefyd yn secondio swyddog i'r WAG yng Nghaerdydd ar gyfer cysylltu ac y dylid sefydlu trefniant ar gyfer cysylltu ag Arweinwyr Awdurdodau Lleol a Chynghorwyr gyda chyfrifoldeb dros gynllunio.

Formatted: Bullets and Numbering

15 Sector Gwirfoddol – Diddordeb Arbennig

Nid yw'r sefydliadau a gyflwynodd ymatebion mewn unrhyw drefn benodol: Cyfeillion y Ddaear Torfaen (CDdT), Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDCW) elusen sy'n ceisio diogelu cefn gwlad rhag datblygiadau amhriodol ac wedi'u lleoli'n wael. Cymdeithas y Cerddwyr (CC) – sydd â mwy na 6,500 o aelodau yng Nghymru, CTC Cymru (CTCC), Cymdeithas Ganwa Cymru (CGC) – Corff Llywodraethu Cenedlaethol Canwa ar gyfer chwaraeon a hamdden yng Nghymru, Sustrans (SUS) – elusen sy'n gweithio ar brosiectau ymarferol i annog mwy o bobl i gerdded a seiclo a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, Cymdeithas y Tirfeddianwyr Cymru (CTC) – sy'n cynrychioli 5000 o fusnesau cefn gwlad, Ymddiriedolaeth Gadwraeth yr Hob (YGH) sydd â diddordeb arbennig yng Nghamlas Maldwyn.

15.1 Ymateb:

15.1.1 Mae'r sefydliadau yn y categori hwn yn adlewyrchu gwahanol ddiddordebau, o gadwraeth i ddefnyddio cefn gwlad ar gyfer hamdden ac iechyd. Er hynny, nid oes yr un ohonynt yn gwrthwynebu'r pwyslais y mae'r DIG yn ei roi ar ddatblygu cynaliadwy ac mae llawer hefyd yn ailadrodd yr apêl i fod yn rhan o ddatblygiad y dyfrffyrdd yn y dyfodol (er yn amrywio o ran lefel y cyfraniad) a wnaed gan y cyrff gwirfoddol eraill a ymatebodd (gweler uchod).

15.1.2 Ni aeth yr holl ymatebwyr yn y categori hwn i'r afael â'r materion ehangach neu gwmpas cyfan DIG. Mae rhywfaint o'r ymatebion yn gryno ac yn gyfyngedig i gylch gwaith penodol y sefydliad neu i faterion neu gynigion penodol ar ddyfrffyrdd penodol.

15.1.3 Rhoddodd y rhai hynny a aeth i'r afael â'r adroddiad yn ei gyfanrwydd groeso cynnes i'r ymgynghoriad ei hun ynghyd â'i gynnwys a'i ddull. Croesawodd Sustrans yn arbennig y dull trawsbynciol o adfywio a'r pwyslais a roddwyd ar werth dyfrffyrdd fel coridorau gwyrdd, gan alluogi rhagor o fynediad i gefn gwlad a mannau agored mewn ardaloedd gwledig a threfol.

15.1.4 Mae YDCW o'r farn nad yw'r cydbwysedd yn yr adroddiad yn gywir drwy'r amser ac nad yw, er enghraifft, 'yn sicr y dylid rhoi "Sbarduno adfywio economaidd" ar frig y rhestr o "gamau angenrheidiol i gynorthwyo i wella ansawdd bywyd yng Nghymru' ac y dylid fod wedi rhoi mwy o ystyriaeth mewn mannau eraill i bwysigrwydd golygfeydd ac amddiffyn bywyd gwyllt.

15.1.5 Mae CTC o blaid y pum cynllun cenedlaethol strategol pwysig a'r 22 prosiect rhanbarthol a lleol a nodir yn DIG a'r fframwaith strategol, ond mae'n pwysleisio'r angen i sicrhau cydweithrediad y tirfeddianwyr a'r rheolwyr cyfagos.

15.1.6 Mae CDdT yn cefnogi'r dull strategol ac yn croesawu llawer o'r cynigion yn benodol.

15.1.7 Mae CC yn cefnogi themâu a'r prosiectau yn DIG oherwydd eu bod yn adlewyrchu nodau CC ei hun ac mae'n croesau'r gydnabyddiaeth i werth seiclo a cherdded.

15.2 Cwmpas:

15.2.1 Fodd bynnag, mae CGC yn anghytuno'n gryf gyda'r penderfyniad i eithrio dyfrffyrdd naturiol, ond mae'n cydnabod fod y posibiliadau a gynigir gan brosiectau a dyfrffyrdd eraill yn cael eu cydnabod ac mae'n gobeithio y bydd yr ymgynghoriad yn arwain at ddull ehangach. Mae'r CGC yn credu fod mynediad i lynnoedd ac afonydd yn arbennig yn llawer rhy gyfyngedig, ac mae'n cymharu'r sefyllfa yng Nghymru gyda'r sefyllfa yn Ewrop ac yn y DU gyda'r Alban, lle mae'r rhagdybiaeth naill ai'n fwy goddefol ar y cyfan, neu fod cytundebau wedi'u trafod ar gyfer ardaloedd i gychod eu defnyddio. Yng Nghymru, yn ôl CGC, mae gormodedd o dirfeddianwyr glan afon, i gyd â rheolaeth unigol dros fynediad i ardaloedd sy'n aml yn gymharol fach y gall cychod eu defnyddio yn golygu fod llai na 7% o afonydd Cymru (17 allan o fwy na 280 y gellir mordwyo arnynt) ar gael i ganw-wyr, am ran o'r flwyddyn yn unig. Mae'r CGC yn dadlau fod gan Gymru'r potensial i fod yn fecca rhyngwladol ar gyfer canwio a chwaraeon padlo, ac mae'n cyfeirio at gyfleust erau ychwanegol fel y Ganolfan Dwr Gwyn yn Nhryweryn a'r ganolfan dwr gwyn Safon Olympaidd arfaethedig ym Mae Caerdydd. Yn wir, mae potensial i ehangu proffil Cymru'n rhyngwladol.

15.2.2 Mae'r CGC yn nodi y potensial i ddefnyddio dociau wedi'u hadfer i ddarparu cyfleoedd chwaraeon, ac mae'n awgrymu Doc Tywysog Cymru yn Abertawe fel lleoliad posib.

15.2.3 Mae SUS yn dadlau dros integreiddio Dyfrffyrdd, llwybrau seiclo a cherdded ac mae'n hyderus y gellir datrys gwrthdaro rhwng buddiannau gwahanol ddefnyddwyr. Mae CTCC o'r farn nad oes digon o bwyslais wedi'i roi ar y potensial cenedlaethol ar gyfer seiclo yn DIG, oherwydd y gallai llwybrau halio gynnig llwybrau diogel gwerthfawr ac mae seiclwyr pellter hir yn cyfrannu at yr economi twristiaeth.

15.2.4 Fodd bynnag, mae YDCW yn dadlau fod darparu meysydd parcio gwledig ar gyfer seiclwyr sy'n cyrraedd mewn ceir yn arfer anghynaliadwy iawn.

15.2.5 Mae YDCW yn credu y dylai dyfrffyrdd eraill fod yn destun adroddiad ac ymgynghoriad ar wahân.

15.2.6 Mae CC yn awgrymu y dylid cael cwmpas ehangach na chamlesi.

15.3 Blaenoriaethau a Themâu:

15.3.1 Mae'r CGC yn cymeradwyo'r blaenoriaethau fel mecanwaith ar gyfer mesur pob prosiect yn erbyn dangosyddion perfformiad ac yn ei dro, mae'n darparu tystiolaeth sy'n gymorth i wneud cais llwyddiannus am gyllid.

15.3.2 Mae SUS yn gweld fod prosiectau'n cynnig buddion amrywiol ac y gallai fod yn anodd blaenoriaethu rhyngddynt ar sail y themâu; o ran amseru, dylid rhoi blaenoriaeth i brosiectau yn ôl nifer ac amrywiaeth y defnyddwyr a fyddai'n cael gwell mynediad. Byddai system raddio yn rhoi hygyrchedd, effaith economaidd a mynd i'r afael â manteision amddifadedd yn y drefn honno fel yr allbynnau diffiniol.

15.3.3 YDCW – 'mae'n rhaid asesu pob prosiect ar ei rinweddau ei hun, mewn ymgynghoriad â phobl leol'.

15.3.4 Mae'r CC yn awgrymu 'dosbarthiad daearyddol', 'mantais fwyaf' a'r 'gorau o safbwynt cynaliadwyedd' fel y profion i'w defnyddio.

15.4 Amserlen:

15.4.1 Mae CGC yn credu y dylai'r potensial ar gyfer darparu gwell mynediad fod yn brif ddangosydd i bennu pa brosiectau ddylai gael blaenoriaeth, awgrym a adleisiwyd gan Sustrans sy'n credu y dylai prosiectau fel gwelliannau i lwybrau halio y gellir eu cyflawni yn gyflym a sicrhau manteision yn syth gael eu cyflawni cyn gwaith mwy sylweddol a drytach.

15.4.2 Mae YDCW yn ystyried bod amserlenni yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.

15.4.3 Mae CDdT o'r farn y bydd angen integreiddio'r amserlen ar gyfer darpariaeth gyda chynnydd Cynlluniau datblygu unedol Awdurdodau Lleol a Chynllun Gof odol Cymru

Formatted: Bullets and Numbering

Formatted: Bullets and Numbering

Formatted: Bullets and Numbering

15.5 Materion Eraill:

15.5.1 Mae CGC yn ystyried fod cysylltiad pwysig i'w wneud gyda strategaeth Chwaraeon Dwr newydd BCC, oherwydd nad yw potensial twristiaeth Cymru yn y sector hwn yn cael ei wireddu'n llawn o bell ffordd.

15.5.2 Mae'r CGC yn ystyried bod y cynnig Gwefan yn hanfodol, ac mae'n nodi fod CGC yn gweithio gyda CCFC a BCC i greu ei wefan ei hun i alluogi i ganw-wyr gael dull hawdd a chynhwysfawr o ddarganfod lleoliadau ar gyfer eu chwaraeon.

15.5.3 Mae'r CGC am weld cynlluniau peilot noddedig DEFRA a gynhelir gan Brifysgol Brighton yn cael eu hehangu i Gymru.

15.5.4 Hoffai'r CGC weld y strategaeth Ddyfrffyrdd hefyd yn ystyried Cynlluniau Datblygu Cyfleuster Chwaraeon Dwr Cenedlaethol Cyngor Chwaraeon Cymru; mae Sustrans yn ychwanegu nifer o ddogfennau polisi allweddol fel 'Strategaeth Cerdded a Seiclo i Gymru', 'Lles yng Nghymru', Fframwaith Strategol Ffyrdd Iach a Gweithgar o Fyw, gofynion Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a chyrff fel Fforwm Trafnidiaeth Cymru a dogfennau polisi eraill, yn manylu ar y rhyngwynebu eang rhwng dyfrffyrdd a datblygiadau polisi diweddar mewn Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad fel BCC, CCGC, WDA, AA a Chyngor Chwaraeon Cymru.

15.5.5 Mae Sustrans yn cymeradwyo'r amrywiaeth o brosiectau sy'n cefnogi'r themâu strategol.

15.5.6 Mae Sustrans yn manylu ar nifer o gyfleoedd y gall dyfrffyrdd a llwybrau halio yn arbennig eu darparu ar gyfer llwybrau cerdded a seiclo pell, gan gysylltu â Llwybrau Rhwydwaith Seiclo Cenedlaethol presennol a rhai sydd ar y gweill (LlRhSCau 81, 46/47, 84, 8, Llwybrau Seiclo Rhanbarthol 31) a llwybrau hir a hyrwyddir i ymwelwyr fel Llwybr Celtaidd 47.

15.5.7 Awgrymodd SUS a CC y gallai rhaglen Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus gyllido gwaith.

15.5.8 Awgrymodd YDCW y dylid fod wedi cynnwys menter LANDMAP CCGC fel rhan o'r ffordd ymlaen.

15.5.9 Awgrymodd YDCW na ddylid anwybyddu Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain fel partner posib.

15.5.10 Mae'r YDCW o'r farn mai cynghorau Tref a Chymuned a grwpiau gwirfoddol sy'n aml yn gyfrifol am raglenni bach ac mae eu mewnbwn yn hanfodol i sicrhau 'synergedd'.

15.5.11 Mae gan YGH ddiddordeb mewn tir sydd gerllaw Camlas Maldwyn fel safle i ddatblygu unedau peilot 'byw i weithio' cynaliadwy.

15.5.12 Mae CDdT yn nodi fod Cyfarwyddeb SEA 2004 yn cyflwyno gofyniad ehangach i farnu effaith datblygiadau, gan gynnwys treftadaeth ddiwylliannol ac iechyd, a hynny mewn dull cyfannol. Wrth ddatblygu dyfrffyrdd: 'dylid mabwysiadu agwedd gytbwys at newid drwy ddefnyddio dangosyddion cynaliadwyedd fel y dull 'Cyfalaf Ansawdd Byw'.

15.5.13 Mae CDdT yn cynnig y dylai fforwm neu ymddiriedolaeth reoli ffurfiol, sy'n gysylltiedig â'r awdurdod unedol y mae'r gamlas yn llifo drwyddo, reoli camlesi.

15.5.14 Mae CC yn nodi fod angen gwell cysylltiadau rhwng trafnidiaeth gyhoeddus â'r cyfleoedd newydd ar gyfer seiclo a cherdded y gallai'r DIG eu darparu.

15.5.15 Mae CC yn nodi prosiectau posib eraill y gallai gymryd rhan ynddynt: cronfeydd data cysylltu teithiau cerdded; neilltuo llwybrau halio fel hawliau tramwy yn wirfoddol (nid yw'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn cynnwys dyfrffyrdd); canolfannau hyfforddi sgiliau gwledig i wirfoddolwyr.

15.5.16 Mae CC yn nodi nad yw cerdded yn cael digon o sylw yn yr adroddiad; fel y dull hamdden mwyaf poblogaidd (mae 77% o boblogaeth Prydain yn 'cerdded er pleser unwaith y mis') a fod llwybrau halio felly'n cynnig potensial gwych ar gyfer adfywiad economaidd ac adfer cefn gwlad. Dylid dangos llwybrau a ddatblygir yn glir ar fapiau OS.

15.5.17 Fodd bynnag, mae CC yn rhybuddio ei bod yn hanfodol gwahanu cerddwyr a seiclwyr ac mae'n dyfynnu papur Anabledd Cymru i Fforwm Mynediad Cenedlaethol CCGC, fod 'rhannu defnydd yn peryglu pobl anabl'.

15.6 Y Ffordd Ymlaen:

15.6.1 Mae CGC o'r farn y dylid sefydlu gweithgor dan awdurdod uniongyrchol y Cynulliad i wireddu'r potensial ar gyfer byw'n gynaliadwy, yr amgylchedd, economi a chynhwysiant cymdeithasol trwy gyflawni'r weledigaeth ar gyfer dyfrffyrdd.

15.6.2 Fodd bynnag, mae CGC yn credu fod gwrthdaro o fewn Asiantaeth yr Amgylchedd 'rhwng ei swyddogaethau Pysgodfeydd a Hamdden/ Mordwyo sydd angen ei ddatrys cyn iddo allu cyfrannu'n ymarferol ac yn ddiduedd'.

15.6.3 Mae SUS yn credu y dylid sefydlu mecanwaith ar gyfer cyfathrebu ac ymgynghori ffurfiol ac anffurfiol gyda grwp ehangach o randdeiliaid a grwpiau defnyddwyr. Dylai hyn fod yn Fforwm Dyfrffyrdd craidd sy'n ymgynghori gyda grwpiau diddordeb ehangach. Yn ogystal â'r cyrff a enwir, dylai Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru gael ei gynrychioli.

15.6.4 Mae'r YDCW am gael un prif gorff o dri grwp, un ar gyfer pob camlas, gyda phanel lleyg ymgynghorol cyffelyb.

15.6.5 Mae'r CDdT yn cymeradwyo'r gweithgor ac yn credu y dylid ei ehangu i gynnwys amrywiaeth llawnach o grwpiau amgylcheddol, diddordeb arbennig a chymunedol.

15.6.6 Nid yw CC yn credu fod angen iddo fod yn rhan o'r gweithgor ond dylai fod yn rhan o'r broses ymgynghori yn lleol am brosiectau priodol, fel prosiect mynediad de Cymru

16 Ymatebion gan Unigolion:

Derbyniwyd ymatebion gan: M. Hyett, Clydach; Dick Cole, Gwent; Owen. H. Prosser, Cinmel; Brian Hancock, Casnewydd; Angela Christine Thompson, Ynys Môn; B. M. Davies, Pont-y-pwl; Dafydd Roberts, Bangor, A. T. Jones, Conwy.

Formatted: Bullets and Numbering

16.1 Ymateb:

16.1.1 Mae mwyafrif yr ymatebion yn cyfyngu eu hunain i gynigion penodol oherwydd eu bod yn ymwneud â lleoliadau sydd o ddiddordeb i'r ymatebydd. Fodd bynnag, cyflwynwyd y sylwadau cyffredinol canlynol.

16.1.2 Roedd nifer o ymatebion yn cefnogi'r dull fframwaith strategol; 'Mae'r Ymgynghoriad, ar y cyfan, yn ddatblygiad cadarnhaol sydd i'w groesawu a allai fod yn hwb pwerus i sicrhau gwaith adfer amrywiol a'r adnoddau ariannol cysylltiedig, sylweddol' (M Hyett). Nid oedd unrhyw un o'r ymatebwyr yn anghymeradwyo neu'n anghytuno â'r dull strategol. Credai un ymatebwr (D Cole) nad oedd y prif brosiectau wedi'u cyfiawnhau'n briodol o ran gwerth am arian. Mae D Cole hefyd yn bryderus ynglyn â dibynnu ar awdurdodau lleol am ddarpariaeth ar gyfer gwaith cynnal a chadw parhaus. Mae A C Thomson yn cyflwyno achos cryf yng nghyd-destun Blwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl am fudd unigryw llwybrau halio, os ydynt ag arwyneb addas, fel – 'delfrydol ar gyfer mynd yn bell…. delfrydol ar gyfer cadeiriau olwyn a sgwteri batri', ac y gallent ddarparu adnodd pwysig i gyflawni'r her o ddarparu ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio, sy'n parhau'n fywiog yn eu henaint. Maent yn llesol i gymdeithas yn gyffredinol yng nghyddestun ymgyrch y GIG yng Nghymru i annog rhagor o ymarfer corff, ac mae potensial i ddefnyddio llawer mwy ar y dyfrffyrdd ar gyfer seiclo. Mae B Hancock yn falch iawn o weld y cynnydd a wnaed o ran datblygu strategaeth gliriach ar gyfer dyfrffyrdd ond roedd yn siomedig gyda'r diffyg cydnabyddiaeth a roddwyd yn adroddiad DIG i swyddogaeth ymgyrchu Cymdeithas Camlas Islwyn. Yn yr un modd, roedd B M Davies, tra'n croesawu'r egwyddorion datblygu cynaliadwy, am weld swyddogaeth lawer mwy blaenllaw i'r sector gwirfoddol, a dadleuodd yn erbyn gorfodi cynigion o'r brig i lawr.

16.2 Cwmpas:

16.2.1 Ni chafwyd sylwadau gan ymatebwyr ar y mater hwn.

16.3 Blaenoriaethau a Themâu:

16.3.1 Mae D Roberts yn credu mai hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru ddylai fod yn brif nod i ni, gyda chreu swyddi, gwella cyfleusterau twristiaeth a hamdden a darparu cyfleoedd dysgu gydol oes wedi hynny. Ar y sail hwn, dylid rhoi blaenoriaeth i adfer dyfrffyrdd mewndirol.

16.3.2 Mae D Cole yn arbennig yn croesawu'r prosiectau mynediad, bioamrywiaeth, addysg a hyfforddiant yng Nglanfa Goetre, De Pont-y-pwl ar gamlas Mynwy ac Aberhonddu, ond er ei fod yn croesawu'r cynnig gwefan, credai ei fod yn rhy ddrud.

16.3.3 Mae B M Davies yn credu y bydd hyfywedd y nodau a nodir yn DIG yn dibynnu ar amgylchiadau lleol, canfyddiadau cymunedau a'r defnydd go iawn; er enghraifft ni fydd rhai ardaloedd yn cynnig proffil da ar gyfer adfywio economaidd ar sail twristiaeth, oherwydd prinder llety, seilwaith a thrafnidiaeth gyhoeddus.

16.3.4 Wrth drafod cynnig penodol dywedodd B M Davies ei fod yn bryderus nad yw'r cyfathrebu â'r gymuned yn effeithiol bob tro, ac y dylid cynnwys cymunedau bob tro a dylai prosiectau darddu o'r gymuned.

16.4 Amserlen:

16.4.1 Mae B M Davies yn awgrymu mai 'gweithio'n bwyllog' yw'r dull gorau; dylid neilltuo amser ar gyfer ymgynghori â'r gymuned.

16.5 Materion Eraill:

16.5.1 Roedd Mr Hyett yn siomedig nad oedd rhagor o fanylion penodol am botensial adfer ym mhen deheuol Camlas Abertawe, a thua'r gogledd o'r trychiad yng Nghlydach.

16.5.2 Mae D Cole yn cynnig y dylai defnyddwyr cychod camlas ar gamlas Mynwy ac Aberhonddu gyfrannu at raglen twristiaeth werdd Adventa (Leader+) Sir Fynwy.

16.5.3 Mae O H Prosser yn awgrymu y gellid cynnal dau brosiect pwysig arall ac mae am weld astudiaethau dichonoldeb arnynt: sefydlu gwasanaeth cludo teithwyr rhwng Llangollen a'r Waun ar y gamlas a sefydlu gwasanaeth teithwyr ar yr Afon Clwyd, rhwng Rhuddlan a'r Rhyl.

16.5.4 Mae B Hancock yn argymell fod gan Ardal Cefn ar Gangen Crymlyn (y gyfres o 14 o lociau) y potensial ar ôl ei adfer i fod yn rhan o'r safle Treftadaeth Byd a'i fod o bwysigrwydd treftadaeth diwydiannol arwyddocaol.

16.5.5 Mae B Hancock o'r farn fod swyddogaeth Cangen Crymlyn yn hanfodol, yn bennaf ar gyfer cludo dwr i'r Marina arfaethedig yng Nghrindau; mae'n awgrymu adfer y ddyfrffordd rhwng Darren Road a Phontywaun, gyda safle tir llwyd cyfagos addas ym Mhontywaun yn cynnig cyfleoedd ar gyfer adfywio economaidd fel prosiect rhatach a fyddai'n dwyn ffrwyth yn gynt.

16.5.6 Mae B M Davies yn cymeradwyo swyddogaeth Cymdeithasau Cymunedol a Grwpiau Lleol fel partneriaid a chyrff i ymgynghori â nhw ar gyfer prosiectau; ac mae'n cynnig y dylai grwpiau diddordeb arbennig lleol sefydlu paneli, i gyfrannu at y fforymau cenedlaethol a'r Cynulliad.

16.5.7 Dylai datblygiadau ar raddfa fawr fod yn destun Asesiadau Effaith Amgylcheddol o ansawdd uchel, i'w cyflwyno i'r paneli diddordeb arbennig i'w cymeradwyo, ac wedyn dylid sefydlu ymddiriedolaethau elusennol drwy ddefnyddio arian adran 106 i reoli dyfrffyrdd eraill sydd wedi'u hadfer.

16.5.8 Mae A. T. Jones o'r farn y dylid cynnig mwy o brosiectau ar gyfer gogledd Cymru ac enghraifft o hyn yw'r potensial ar gyfer canwio ar Afon Conwy, syh cael ei rwystro gan ddiffyg mynediad a chyfleusterau eraill.

Formatted: Bullets and Numbering

16.6 Y Ffordd Ymlaen:

16.6.1 Mae D Roberts yn daer o blaid sefydlu gweithgor cenedlaethol i oruchwylio ein tirweddau hanesyddol, yn hytrach na dyfrffyrdd yn unig. Dywed y gallai Dyfrffyrdd Prydain fod yn aelod sylfaenol o grwp o'r fath.

16.6.2 Mae B M Davies yn credu fod angen sefydlu panel lleyg, yn ogystal â'r gweithgor cenedlaethol, yn cynnwys grwpiau cymunedol, amgylcheddol a diddordebau arbennig, a fyddai'n gwbl annibynnol ar grwpiau gwleidyddol neu ddiddordeb uniongyrchol.

17 Casgliadau

17.1 Ymateb i Ddyfrffyrdd i Gymru

17.1.1 Rhoddwyd croeso cynnes i'r fenter i nodi gwerth strategol pwysig dyfrffyrdd a'r gwaith i sicrhau strategaeth genedlaethol fwy cynhwysfawr, cydlynol a blaenoriaethol ar gyfer dyfrffyrdd.

17.2 Ymateb i'r cwmpas a amlinellir yn Dyfrffyrdd i Gymru

17.2.1 Cytunwyd yn gyffredinol na ddylid cyfyngu posibiliadau menter o'r fath i ddyfrffyrdd o waith dyn, ac y gallent gynnwys afonydd, llynnoedd, cronfeydd dŵr a dyfroedd arfordirol.

17.2.2 Yn benodol, yn ogystal ag ymateb Asiantaeth yr Amgylched y dylent gael eu cynnwys, awgrymodd sefydliadau eraill hefyd y dylai dyfrffyrdd Asiantaeth yr Amgylchedd fod o fewn cwmpas y strategaeth.

17.2.3 Mae'r amrywiaeth eang o bartïon sydd â diddordeb mewn amrywiaeth o asedau a materion o'r fath am gael eu cynnwys i wahanol raddau yn y broses o lunio cynlluniau neu fframweithiau strategol (gweler isod, 'Ffordd Ymlaen').

17.2.4 Dim ond golwg rannol a daearyddol wasgaredig o botensial llawn dyfrffyrdd Cymru y mae'r ymatebion yn ei ddarparu ac mae angen gwneud rhagor o waith i ddiffinio'r posibiliadau am ddull mwy strategol.

17.3 Ymatebion i'r blaenoriaethau a amlinellir yn Dyfrffyrdd i Gymru

17.3.1 Gwerthfawrogwyd y pŵer eglurhaol o ddefnyddio blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru fel dull o fesur prosiectau unigol, oherwydd ei fod yn cynnig dull defnyddiol o ganfod a chyfleu rhywfaint o'r adenillion ar fuddsoddiad y gallai'r cynlluniau eu cynnig.

17.3.2 Teimlwyd y dylid cynnwys agweddau eraill e.e. diogelu neu wella bioamrywiaeth ac enillion 'ansawdd bywyd', er bod angen gwneud rhywfaint o waith gyda Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad i ddarganfod gwell dulliau mesur ar gyfer yr olaf.

17.3.3 Fodd bynnag, y farn oedd mai llwyddiant i sicrhau cyllid fyddai'n pennu'r amserlen, ac y dylai'r cynlluniau sy'n cael blaenoriaeth ar hyn o bryd a restrir yn DIG (e.e. adfer camlesi Maldwyn, M&B ac SN&T) fod yn flaenoriaethau craidd yn y cyfamser.

17.3.4 Credai rhai ymatebwyr y dylid defnyddio safbwynt cenedlaethol mwy cyffredinol ar flaenoriaethau, yn mynd i'r afael â materion fel bioamrywiaeth, ac y dylid cysylltu'r cynllun hwn yn fwy pendant gyda dogfennau fel Cynllun Gofodol Cymru, Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a Chynlluniau Datblygu Unedol ALI.

17.3.5 Credai llawer, o ystyried hanes y dyfrffyrdd adeiledig, mai adfywio economaidd ddylai gael y flaenoriaeth yn achos y dyfrffyrdd a'r marinas mewndirol hyn, cyhyd â bod egwyddorion diogelu'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy'n cael eu parchu ym mhob achos. Credai llawer fod y pum gwerth i gael blaenoriaeth a nodwyd (adfywio economaidd, adfer cefn gwlad, byw'n gynaliadwy, bywiogrwydd treftadaeth ddiwylliannol Cymru, Cymru yn y byd ehangach) i gyd yn gorgyffwrdd a fod y prosiectau dyfrffyrdd mewndirol yn gallu darparu ymrwymiad y Cynulliad i ddatblygu cynaliadwy mewn ffyrdd arwyddocaol.

17.3.6 Nodwyd y dylai strategaeth gyda phrosiectau cenedlaethol a rhanbarthol/lleol fod yn fwy penodol ynglŷn â'r targedau a fyddai'n cael eu cyflawni dan y blaenoriaethau hyn.

17.4 Ymateb i'r ffordd ymlaen a amlinellir yn Dyfrffyrdd i Gymru

17.4.1 Roedd yr ymatebion o blaid gweithgor gweithredol i roi cyfeiriad strategol i'r gwaith o nodi prosiectau, cytuno ar flaenoriaethau, dechrau partneriaethau a mesur cynnydd.

17.4.2 Mae gan y cynnig hwn oblygiadau o ran adnoddau i ddarpar bartneriaid, gan y byddai angen amser a staff i gynnal y gweithgor.

17.4.3 Er bod cyllid yn destun trafod, cydnabuwyd y byddai gwahanol bartneriaid gweithgor o'r fath yn gallu cyfrannu mewn ffyrdd gwahanol, gyda rhai yn cyfrannu adnoddau ac eraill yn darparu cyllid (gan gynnwys cyllid o ffynonellau y tu allan i Gymru).

17.4.4 Yn ogystal â'r gweithgor cenedlaethol, dylid sefydlu grwpiau neu bartneriaethau rhanbarthol a lleol, yn canolbwyntio ar ddarparu prosiectau, gan adrodd yn ôl i'r gweithgor cenedlaethol.

17.4.5 Pwysleisiodd rhai y dylai gweithgor cenedlaethol o'r fath gael ei noddi ac/neu ei gadeirio gan Weinidog ac y dylid cyflwyno adroddiad blynyddol ar gynnydd i un o Bwyllgorau'r Cynulliad.

17.4.6 Nodwyd fod cyfranogiad y gymuned yn hanfodol yn lleol/rhanbarthol ac y dylai'r sector gwirfoddol hefyd fod yn bartner allweddol ar lefel genedlaethol.

17.5 Materion Eraill a godwyd yn yr ymatebion i Ddyfrffyrdd i Gymru: (Cyllid)

17.5.1 Mae IWAAC ac ALI yn nodi fod rhywfaint o'r gwaith y maent am ei wneud i adfer dyfrffyrdd yn cael ei eithrio o fod yn gymwys ar gyfer gwariant llywodraeth a chymorth grant UE a loteri ar hyn o bryd; mae enghreifftiau'n cynnwys:

17.5.2 methu gallu cynnwys gwaith atgyweirio pontydd isel mewn cynigion gwaith i Gyfarwyddiaeth Briffyrdd y Cynulliad,

17.5.3 gwaith (e.e. ar gyfer marina neu adfer dyfrffyrdd ar gyfer cychod) mewn ardaloedd trefol sy'n anghymwys ar gyfer cyllid adfywio gwledig neu UE ond a fyddai o fudd uniongyrchol i ardaloedd gwledig ymhellach i ffwrdd; ac

17.5.4 anhawster cyffredinol i ennill cynigion ar gyfer prosiectau cyfalaf ar gyfer twristiaeth lle mae'r buddion, er eu bod yn cael eu hystyried yn real ac yn gynhyrchiol ar y cyfan, wedi'u gwasgaru ormod yn ddaearyddol neu angen gormod o amser i arddangos ROI yn ôl gofynion y cyllidwyr.

17.5.5 Mae hyn wedi arwain at waith adfer tameidiog, gyda rhannau sylweddol o ddyfrffyrdd y gellid eu defnyddio gan gychod, cyfleusterau newydd ac ati yn cael eu creu ond allan o gyrraedd tra bod ymdrechion aflwyddiannus i ddod o hyd i atebion cyllid ar gyfer gwaith cyfalaf allweddol mewn mannau sy'n peri rhwystr.

17.5.6 Mae cynlluniau Amcan 1 posib eraill wedi'u hawgrymu a bydd angen gweithredu ar frys os ydynt am gael eu hyrwyddo'n llwyddiannus yn yr amser sydd ar ôl ar gyfer rhaglen Gyllid yr UE.

17.5.7 Yn yr un modd, mae angen mynd ati'n ddiymdroi i farchnata a datblygu cynnyrch ar y cyd a allai fod yn gymwys ar gyfer cyllid partneriaeth neu gyllid drwy Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a dylai'r rhain fod yn flaenoriaethau ar gyfer adolygiad lefel uchaf rhwng y partneriaid dyfrffyrdd.

17.5.8 Awgrymodd ALI ac IWAAC y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynhyrchu TAN ar ddyfrffyrdd.

17.5.9 Ymchwil i ddatblygu neu ddefnyddio gwell mesurau buddion Ansawdd Bywyd, i'w defnyddio i asesu ROI.

ATODIAD A: Rhestr o Ymatebwyr yn ôl Categori

ASPB:

BCC
AA Cymru
Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Cyrff Cyhoeddus Eraill:

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Cynulliad Rhanbarth y Gogledd Orllewin
Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
IWAAC

ALl, llywodraeth leol eraill:

Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot
Dinas a Sir Abertawe
Cyngor Sir Powys
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen
Cyngor Sir Casnewydd
Cyngor Tref Pontardawe
Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaiarn

Sector Gwirfoddol: Dyfrffyrdd:

Ymddiriedolaeth Camlesi Mynwy, Aberhonddu a'r Fenni Cyf
Cymdeithas Dyfrffyrdd Mewndirol
Ymddiriedolaeth Adfer Dyfrffordd Maldwyn
Cymdeithas Camlas y Shropshire Union
Swansea-Waterlinks.com
Cymdeithas Camlas Abertawe

Sector Gwirfoddol: Grwpiau â Diddordeb Arbennig:

Cyfeillion y Ddaear Tor-faen
Cymdeithas y Cerddwyr
CTC Cymru
Cymdeithas Ganwa Cymru
Ymgyrch Diolgelu Cymru Wledig
Sustrans
CLA Cymru
Ymddiriedolaeth Gadwraeth yr Hob
Cymdeithas Gadwraeth Camlesi Castell-nedd a Thennant

Cyrff Proffesiynol:

Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd
Sefydliad Cynllunio Tref Brenhinol

Cyrff masnachol a'r sector Preifat:

Parsons Brinckerhoff
Newport Unlimited

Pleidiau Gwleidyddol, Aelodau etholedig

Democratiaid Ryddfrydol Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Sir Drefaldwyn

Unigolion:

Mrs M. Hyett
David Cole (Cadeirydd Pwyllgor dros yr Amgylchedd Gwent)
Owen. H. Prosser
Brian Hancock
Angela Christine Thompson
Miss B. M. Davies
Mr Dafydd Roberts
Mr A. T. Jones

ATODIAD B: Rhestr o Ymatebwyr yn nhrefn y Wyddor

AA Cymru
Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
Angela Christine Thompson
Brian Hancock
Bwrdd Croeso Cymru
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
CTC Cymru
Cyfeillion y Ddaear Tor-faen
Cymdeithas Camlas Abertawe
Cymdeithas Dyfrffyrdd Mewndirol
Cymdeithas Gadwraeth Camlesi Castell-nedd a Thennant
Cymdeithas Gamlas y Shropshire Union
Cymdeithas Ganwa Cymru
Cymdeithas Tirfeddianwyr Cefn Gwlad Cymru
Cymdeithas y Cerddwyr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Sir Powys
Cyngor Tref Pontardawe
Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaiarn
Cynulliad Rhanbarth y Gogledd Orllewin
David Cole (Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd Gwent)
Democratiaid Rhyddfrydol Sir Drefaldwyn
Dinas a Sir Abertawe
IWAAC
Miss B. M. Davies
Mr A. T. Jones
Mr Dafydd Roberts
Mrs M. Hyett
Newport Unlimited
Owen H. Prosser
Parsons Brinckerhoff
Rhyddfrydwyr Democrataidd Cymru
Sefydliad Cynllunio Tref Brenhinol
Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd
Sustrans
Swansea-Waterlinks.com
Ymddiriedolaeth Adfer Dyfrffyrdd Maldwyn
Ymddiriedolaeth Camlesi Mynwy, Aberhonddu a'r Fenni Cyf
Ymddiriedolaeth Gadwraeth Yr Hob
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig

ATODIAD C:– Ymateb i'r Holiaduron Byr

Dosbarthwyd y rhan fwyaf o ffurflenni'r Holiadur Byr yn Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Meifod ym mis Awst 2003; dosbarthwyd rhai ffurflenni mewn digwyddiadau cyhoeddus eraill ac mewn ymateb i geisiadau gan y cyhoedd. Darparodd yr Eisteddfod drawsdoriad eang o ran oed a tharddiad gydag elfen o hunan-ddewis (cafodd y rhan fwyaf a lenwodd y ffurflen ei chynnig wrth iddynt fynd heibio i Stondin Dyfrffyrdd Prydain ar lwybr prysur ond daeth rhai i'r Stondin o ddewis); rhaid cymryd yn ganiataol bod ymatebion eraill wedi'u gwneud gan unigolion a oedd â rhywfaint o ddiddordeb os gwnaethant ofyn am holiadur yn benodol.



Q1 – Creating Jobs C1 – Creu Swyddi
Importance Rating Graddfa Bwysigrwydd
1 – most important 1 – pwysicaf
2 – least important 2 – lleiaf pwysig



Q1 – Leisure, recreation and tourism C1 – Hamdden, adloniant a thwristiaeth
Importance Rating Graddfa Bwysigrwydd
1 – most important 1 – pwysicaf
2 – least important 2 – lleiaf pwysig



Q1 – Improving access to the environmant C1 – Gwella myediad i'r amgylchedd
Importance Rating Graddfa Bwysigrwydd
1 – most important 1 – pwysicaf
2 – least important 2 – lleiaf pwysig



Q1 – Promoting Welsh culture and heritage C1 – Hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru
Importance Rating Graddfa Bwysigrwydd
1 – most important 1 – pwysicaf
2 – least important 2 – lleiaf pwysig



Q1 – Eduacting children and adults C1 – Addysgu plant ac oedolion
Importance Rating Graddfa Bwysigrwydd
1 – most important 1 – pwysicaf
2 – least important 2 – lleiaf pwysig



Q1 – Promoting Waes to the world C1 – Hyrwyddo Cymru i'r byd
Importance Rating Graddfa Bwysigrwydd
1 – most important 1 – pwysicaf
2 – least important 2 – lleiaf pwysig



Q1 – Average Scores
Score (+3 most important, -3 least important)
Q1A – jobs
Q1B – leisure
Q1C – access
Q1D – culture
Q1E – education
Q1F – promoting Wales

C1 – Sgôr ar gyfartaledd
Sgôr (+3 pwysicaf, -3 lleiaf pwysig)
C1A – swyddi
C1B – hamdden
C1C – mynediad
C1D – diwylliant
C1E – addysg
C1F – hyrwyddo Cymru



Q2 – More waterways restored C2 – Mwy o ddyfrffyrdd wedi'u hadfer
Importance Rating Graddfa Bwysigrwydd
1 – most important 1 – pwysicaf
2 – least important 2 – lleiaf pwysig



Q2 – Improved access to canals for all C2 – Gwell mynediad i gamlesi i bawb
Importance Rating Graddfa Bwysigrwydd
1 – most important 1 – pwysicaf
2 – least important 2 – lleiaf pwysig



Q2 – Better publicity and information about waterways C2 – Gwell cyhoeddusrwydd a gwybodaeth am ddyfrffyrdd
Importance Rating Graddfa Bwysigrwydd
1 – most important 1 – pwysicaf
2 – least important 2 – lleiaf pwysig



Q4 – Do you think …….. C4 – Ydych chi o'r farn y dylid cael gweithgor o gyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i gydgysylltu'r math hwn o waith yng Nghymru?

yes ydw
no nac ydw



Q1 – Average Scores
Score (+1 most important, -1 least important)
Q2A – restoration
Q2B – access
Q2C – publicity

C1 – Sgôr ar gyfartaledd
Sgôr (+1 pwysicaf, -1 lleiaf pwysig)
C2A – adfer
C2B – mynediad
C1C – cyhoeddusrwydd

ATODIAD D: DATA O'R HOLIADUR BYR

C1A

		%	Nifer yr ymatebwyr
	1 - pwysicaf	29	210
	2	23	166
	3	17	128
	4	14	103
	5	9	63
	6 – lleiaf pwysig	9	64
	Cyfanswm	100	734
Dim ymateb			48
Cyfanswm yr ymatebwyr			782

C1B

		%	Nifer yr ymatebwyr
	1 - pwysicaf	54	408
	2	17	129
	3	9	64
	4	7	50
	5	7	56
	6 - lleiaf pwysig	6	45
	Cyfanswm	100	752
Dim ymateb			30
Cyfanswm yr ymatebwyr			782

C1C

		%	Nifer yr ymatebwyr
	1 - pwysicaf	22	159
	2	22	160
	3	22	158
	4	14	99
	5	11	78
	6 - lleiaf pwysig	10	71
	Cyfanswm	100	725
Dim ymateb			57
Cyfanswm yr ymatebwyr			782

C1D

		%	Nifer yr ymatebwyr
Dilys	1 - pwysicaf	15	105
	2	13	96
	3	15	105
	4	22	155
	5	22	156
	6 - lleiaf pwysig	14	103
	Cyfanswm	100	720
Dim ymateb			62
Cyfanswm yr ymatebwyr			782

C1E

		%	Nifer yr ymatebwyr
Dilys	1 - pwysicaf	11	80
	2	13	90
	3	19	135
	4	23	164
	5	22	155
	6 - lleiaf pwysig	12	87
	Cyfanswm	100	711
Dim ymateb			71
Cyfanswm yr ymatebwyr			782

C1F

		%	Nifer yr ymatebwyr
Dilys	1 - pwysicaf	13	90
	2	8	57
	3	11	79
	4	12	86
	5	17	120
	6 - lleiaf pwysig	39	280
	Cyfanswm	100	712
Dim ymateb			70
Cyfanswm yr ymatebwyr			782

C1 – Sgôr graddau pwysigrwydd ar gyfartaledd

	Sgôr	**Gradd pwysigrwydd**
C1A – swyddi	**0.91**	**2**
C1B – hamdden	**1.66**	**1**
C1C – mynediad	**0.67**	**3**
C1D – diwylliant	**-0.23**	**4**
C1E – addysg	**-0.25**	**5**
C1F – hyrwyddo Cymru	**-0.99**	**6**

C2A

		%	Nifer yr ymatebwyr
Dilys	1 - pwysicaf	70	532
	2	20	150
	3 - lleiaf pwysig	9	70
	Cyfanswm	100	758
Dim ymateb			27
Cyfanswm yr ymatebwyr			782

C2B

		%	Nifer yr ymatebwyr
Dilys	1 - pwysicaf	27	201
	2	54	404
	3 - lleiaf pwysig	18	137
	Cyfanswm	100	744
Dim ymateb			39
Cyfanswm yr ymatebwyr			782

C2C

		%	Nifer yr ymatebwyr
Dilys	1 - pwysicaf	14	102
	2	21	154
	3 – lleiaf pwysig	65	473
	Cyfanswm	100	735
Dim ymateb			50
Cyfanswm yr ymatebwyr			782

C2 - Sgôr graddau pwysigrwydd ar gyfartaledd

	Sgôr	**Gradd pwysigrwydd**
C2A – adfer	**0.61**	**1**
C2B – mynediad	**0.09**	**2**
C2C – cyhoeddusrwydd	**-0.5**	**3**

C4

		%	Nifer yr ymatebwyr
Dilys	ydw	91	413
	nac ydw	9	41
	Cyfanswm	100	454
Dim ymateb			328
Cyfanswm yr ymatebwyr			782

ATODIAD D: RHESTR O FYFRFODDAU

Efallai nad y Byrfoddau sydd wedi'u mabwysiadu yn yr adroddiad hwn yw'r rhai sy'n cael eu defnyddio bob amser gan y sefydliadau dan sylw.

APGW	Grwp Pob Plaid ar Ddyfrffyrdd (Cynulliad)
ASPB	Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad
DP	Dyfrffyrdd Prydain
CCGCW	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
CIEH	Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd
CLAW	Cymdeithas Tirfeddianwyr Cefn Gwlad Cymru
YDCW	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
CTCC	CTC Cymru
AA	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
HCT	Ymddiriedolaeth Gadwraeth yr Hob
HERIAN	Treftadaeth ar Waith (Sefydliad Treftadaeth Ddiwydiannol De Cymru gynt)
IWA	Cymdeithas Dyfrffyrdd Mewndirol
IWAAC	Inland Waterways Amenity Advisory Council
ALI	Awdurdodau Lleol
LDP	Plaid y Rhyddfrydwyr Democrataidd
M&B	Camlas Mynwy ac Aberhonddu gyda changen Crymlin
MBACT	Ymddiriedolaeth Mynwy, Aberhonddu a'r Fenni Cyf
MCC	Cyngor Sir Fynwy
MLD	Democratiaid Rhyddfrydol Sir Drefaldwyn
Monty	Camlas Maldwyn
MWRT	Ymddiriedolaeth Adfer Dyfrffordd Maldwyn
NCCC	Cyngor Dinas Casnewydd
NMGW	Amgueddfeydd ac Orielau Cymru
NPTCBC	Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot
NTCPS	Cymdeithas Gadwraeth Camlesi Castell-nedd a Thennant
NUL	Newport Unlimited
NWRA	Cynulliad Rhanbarth y Gogledd Orllewin
PB	Parsons Brinckerhoff
PCC	Cyngor Sir Powys
RA	Cymdeithas y Cerddwyr
RCA	Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
RTPI	Sefydliad Cynllunio Tref Brenhinol
SCCC	Dinas a Sir Abertawe
SCS	Cymdeithas Camlas Abertawe
SNT	Camlesi Abertawe, Castell-nedd a Thennant
SUCS	Cymdeithas Gamlas y Shropshire Union
SUS	Sustrans
SW	Swansea-Waterlinks.com
TCBC	Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen
TFOE	Cyfeillion y Ddaear Tor-faen
TNLL	Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaiarn
TPC	Cyngor Tref Pontardawe
WAG	Llywodraeth Cynulliad Cymru
WCA	Cymdeithas Ganwa Cymru
WCBC	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
WDA	Awdurdod Datblygu Cymru
DIP	Dyfrffyrdd i Gymru
WLD	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
BCC	Bwrdd Croeso Cymru